# Plant sy’n teimlo effaith carcharu aelod o’r teulu

## Llawlyfr i ysgolion i ddatblygu arfer da

Credwch mewn plant
Barnardo’s
Cymru

Chwefror 2014



> *Mae'r ysgol wedi bod yn gwbl wych. Mae tri o blant eraill yn ei ystafell ddosbarth – mae eu rhieni nhw yn y carchar, felly pan es i at yr athro dywedodd na, mae hyn yn hollol iawn, fydd hyn ddim yn broblem*
>
> (Gill, 2009)



> *Does gennym ni ddim plant yn yr ysgol hon a'u rhieni yn y carchar, nac erioed wedi bod yn y carchar.*
>
> (Morgan et al, yn y wasg [a])



*Ddylai [pobl eraill] ddim gwybod. Mae'r stigma'n dal i fodoli. Byddai pobl yn meddwl bod pawb yn y teulu fel yna. Efallai y byddai'r ysgol yn meddwl eu bod nhw'r un fath â'u tad. Mae yna lawer o anwybodaeth o gwmpas.*

(Gill, 2009)

# Cydnabyddiaethau

**Golygwyd y llawlyfr hwn gan:**

**Julia Morgan**
Darlithydd,
Ysgol Addysg,
Prifysgol Plymouth

**Owen Gill**
Cydlynydd Gwrthdlodi Rhanbarthol,
Barnardo's De Orllewin Lloegr

**Wedi'i addasu ar gyfer Cymru gan**
**Zoe Lancelott**
**Pennaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad**
**Rhondda Cynon Taf.**

**Cyfrannodd y canlynol wybodaeth, enghreifftiau o achosion neu adrannau unigol i'r llawlyfr:**

**Heather Ball**
Seicolegydd Addysgol,
Cyngor Dinas Birmingham

**May Jacobson Deegan**
Cynorthwyydd Ymchwil,
Barnardo's De Orllewin Lloegr

**Caroline Leeson**
Athro Cyswllt,
Ysgol Addysg,
Prifysgol Plymouth

**Martin Manby**
Cyfarwyddwr,
Canolfan Genedlaethol Ymchwil Plant,
Huddersfield

**Claire Smith**
Seicolegydd Addysgol,
Cyngor Swydd Stafford

**Emma Reed**
Gweithiwr Prosiect
Barnardos Cymru

**Corin Morgan-Armstrong**
Pennaeth Ymyriadau Teulu a Waliau
Anweladwy Cymru





# Cynnwys

**Rhagair** 7

Adran un:
**Cyflwyniad** 8

Adran dau:
**Effaith bosibl carcharu rhiant neu aelod arall o'r teulu** 12

Adran tri:
**Yr effaith ar blant yn ystod gwahanol gyfnodau 'taith y troseddwr'** 18

Adran pedwar:
**Strategaethau ac arfer da i awdurdodau lleol ac ysgolion** 24

Adran pump:
**Casgliad** 35

**Atodiadau** 37

**Cyfeiriadau** 49

## Noder

Er mai'r llawlyfr hwn yw ein prif adnodd i ysgolion, gall staff ysgol prysur ddefnyddio'r dalenni adnoddau amgaeedig fel canllaw cyflym. Hefyd, gellir defnyddio'r poster A3 amgaeedig mewn ysgolion i ddangos yn glir bod yr ysgol yn rhoi sylw i anghenion plant ag aelod teulu yn y carchar.



# Rhagair



Yn Barnardo's, rydym yn cydnabod bod plant sy'n teimlo effaith carcharu aelod o'r teulu'n gr p agored iawn i niwed. Maent yn wynebu pwysau sylweddol yn ystod cyfnod y carcharu, ac maent mewn perygl o gael canlyniadau gwaeth wedi hynny.

Mae bod â rhiant neu aelod teulu arall yn y carchar yn gallu effeithio ar ymdeimlad plentyn o hunaniaeth ac ar sut mae'n rhyngweithio â theulu a chymuned. Yn llawn mor bwysig, mae'n gallu effeithio ar fywyd yn yr ysgol. Gan mai ysgolion yw'r ddarpariaeth gwasanaeth fwyaf cyffredinol i blant, mae'n hanfodol bod ysgolion yn diwallu anghenion y plant y mae'r mater hwn yn effeithio arnynt. Mae llawer o ysgolion yn gwneud cynnydd da yn y maes hwn, ond rydym yn gwybod o'n gwaith bod yr ansawdd yn amrywio.

Mae Barnardo's wedi ymwneud ers blynyddoedd lawer â datblygu gwasanaethau i blant sy'n teimlo effaith carcharu rhiant, mewn carchardai ac yn y cymunedau lle mae'r plant yn byw. Mae ein gwaith yn seiliedig ar geisio gweld y 'plentyn cyfan' er mwyn deall effaith ehangach bod ag aelod teulu yn y carchar.

Mae Barnardo's hefyd yn ymwneud â gwaith dylanwadu i godi ymwybyddiaeth ymysg asiantaethau eraill o anghenion y grŵp hwn a hwyluso dulliau partneriaeth sy'n diwallu'r anghenion hynny.

Mae'r llawlyfr hwn yn rhan o'r gwaith dylanwadu hwnnw ac mae wedi'i addasu o lawlyfr a gynhyrchwyd gan Barnardo's De Orllewin Lloegr.

Ein bwriad gyda'r llawlyfr hwn yw darparu adnodd hawdd ei ddefnyddio a all helpu ysgolion Cymru i roi cymorth i blant sy'n teimlo effaith carcharu rhiant.



**Yvonne Rodgers**
Cyfarwyddwraig, Barnardo's Cymru
Cyfarwyddwraig Dros Dro, Barnardo's De Orllewin Lloegr

# Adran un:
# Cyflwyniad

## Maint y mater

Bob blwyddyn yng Nghymru a Lloegr, mae tua 200,000 o blant yn cael y profiad o fod â rhiant yn y carchar (Williams et al, 2012).

Tad yn y carchar fydd gan y rhan fwyaf o'r plant hyn, oherwydd mae nifer y dynion yn y carchar yn llawer uwch na nifer y menywod. Ym mis Tachwedd 2012, roedd poblogaeth carchardai Cymru a Lloegr yn 85,450. O'r carcharorion hyn, roedd 4,141 yn fenywod (Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, 2012a).

Amcangyfrifir bod carcharu'n gwahanu cyfanswm o 18,000 o blant oddi wrth eu mamau bob blwyddyn (Corston, 2007).

Hefyd, bydd llawer o blant yn cael y profiad o fod â brawd, chwaer neu aelod arall o'r teulu yn y carchar. Amcangyfrifodd Meek (2006) fod o leiaf 35,000 o blant y flwyddyn yn gweld brawd neu chwaer yn mynd i'r carchar.

Mae tua 26,000 o ysgolion yng Nghymru a Lloegr, sy'n golygu, yn ôl y ffigurau uchod, ei bod yn debygol iawn bod y mwyafrif helaeth o ysgolion yn cynnwys plant â naill ai riant neu aelod arall o'u teulu yn y carchar. Mae Wright a Khan (2010) yn dyfynnu un pennaeth yn Rhydychen sy'n amcangyfrif bod o leiaf ddau o blant ym mhob dosbarth yn ei hysgol yn debygol o fod ag aelod teulu yn y carchar.

Felly, mae gan ysgolion ran hollbwysig i'w chwarae o ran diwallu anghenion plant sy'n teimlo effaith carcharu. Bydd plant ag aelod o'u teulu yn y carchar yn dod i'r ysgol ag anghenion a sensitifrwydd penodol. Mae adnabod yr anghenion hyn yn gam pwysig tuag at sicrhau bod y plant yn teimlo cefnogaeth, gan helpu i wneud y mwyaf o'u potensial dysgu.

Drwy roi sylw i'r anghenion hyn, bydd ysgolion yn gallu cynllunio'n fwy effeithiol ar gyfer dysgu a bod yn rhan o'r broses sy'n gallu torri'r cylch troseddu drwy godi cyrhaeddiad a dyheadau.

## Yr her i staff ysgolion

Er bod gan ysgolion a'u staff ran sylweddol i'w chwarae drwy roi cymorth i blant ag aelod o'u teulu yn y carchar, efallai na fydd o reidrwydd yn glir i staff addysgu a staff eraill sut gallant roi cymorth penodol i blant sydd yn y sefyllfa hon. Hefyd, efallai na fydd staff ysgol wedi gweithio gyda phlant ag aelod teulu yn y carchar o'r blaen, ac efallai na fyddant yn siŵr sut i godi'r pwnc.

Mae blaenoriaethau addysgol megis pwyslais ar gyrhaeddiad disgyblion, eu perfformiad yn yr ysgol a'u presenoldeb hefyd yn gallu rhoi pwysau ar staff a'u tynnu i lawer o gyfeiriadau gwahanol gan olygu nad oes ganddynt ddigon o amser i ganolbwyntio ar faterion eraill.

Fodd bynnag, os gall staff ysgol roi cymorth sensitif gan ystyried anghenion y grŵp hwn o blant yn briodol, bydd ysgolion yn galluogi'r plant hyn i gyflawni, yn ogystal â chyflawni eu hamcanion a'u blaenoriaethau addysgol.

Mae ymchwil wedi dangos bod carcharu rhiant yn gallu effeithio'n uniongyrchol ar gyrhaeddiad academaidd, datblygiad emosiynol-gymdeithasol ac ymddygiad plant, a'i fod yn aml yn arwain at waharddiad o'r ysgol neu driwantiaeth (Sefydliad Rhagoriaeth Gofal Cymdeithasol [SCIE], 2008). Felly, mae cymorth gan ysgolion i blant ag aelod teulu yn y carchar yn bwysig gan y bydd yn cyfrannu at wella amrywiaeth o ganlyniadau addysg a lles i gr p o blant sydd mewn perygl o nifer o ganlyniadau gwaeth.



## Adroddiadau sy'n canolbwyntio ar swyddogaeth ysgolion

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae llawer o adroddiadau wedi ceisio ffocysu sylw ar y rhan y gall ysgolion ei chwarae i ddiwallu anghenion plant sy'n teimlo effaith carcharu aelod o'u teulu.

Dywedodd yr adolygiad o blant troseddwyr (Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2007) fod angen y canlynol er mwyn gwella canlyniadau i blant carcharorion a rhoi gwell cymorth i'w teuluoedd:

*'...mecanwaith i alluogi awdurdodau lleol i gynnal asesiad systematig o anghenion y plentyn a'u diwallu, wedi'i danategu gan ganllawiau seiliedig ar dystiolaeth, codi ymwybyddiaeth a gwybodaeth drefnus.'*

Roedd yr adolygiad hefyd yn cydnabod bod plant carcharorion yn 'grŵp anweledig', heb 'ddim gwybodaeth gadarn a rennir am bwy ydynt, dim llawer o ymwybyddiaeth o'u hanghenion a dim cymorth systematig' (Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2007).

Roedd yr adroddiad Families do matter, a gynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2009), yn nodi:

*'Mae llawer o staff ysgol yn darganfod bod gan blentyn aelodau teulu yn y carchar. Weithiau, bydd gofalwr y plentyn yn rhoi'r wybodaeth hon; efallai er mwyn ceisio cymorth gan yr ysgol. Fodd bynnag, yn rhy aml nid yw hyn yn digwydd; nid yw'r staff yn gwybod dim neu ddim ond yr hyn y maent yn ei dybio neu'n ei glywed yn answyddogol.'*

Yn y pedair mlynedd ers cyhoeddi'r adroddiad Families do matter, mae rhai awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr wedi datblygu strategaethau i ymgysylltu â'r grŵp hwn o blant a'u teuluoedd i roi hyder iddynt y gall ysgolion ddiwallu eu hanghenion. Cynhyrchwyd un o'r setiau o ganllawiau y cyfeirir ati amlaf ar gyfer diwallu anghenion y grŵp hwn gan Gyngor Swydd Rhydychen (Evans, 2009).



Ond mae'r darlun yn un cymysg iawn. Ledled y DU, mae gwahanol lefelau o arbenigedd a hyfforddiant mewn ysgolion o ran plant ag aelod teulu yn y carchar. Mae'r prosiect COPING a gwblhawyd yn ddiweddar (2012), gan gynnal ymchwil yn Sweden, Romania, yr Almaen a'r DU, yn rhoi crynodeb cywir o'r sefyllfa:

*'Ysgolion yw'r un sefydliad y mae bron bob plentyn yn ei fynychu'n rheolaidd. Maent yn ffynhonnell bwysig o gymorth i blant sydd â rhieni yn y carchar, ac mae ganddynt botensial i gyfrannu at eu lles emosiynol. Fodd bynnag, yn aml nid yw ysgolion yn ymwybodol o fodolaeth plant carcharorion, nac o'u hanghenion. Pan ddaw'n hysbys bod y rhiant yn y carchar, gall plant gael eu bwlio a dioddef stigma. Os yw athrawon neu staff eraill yr ymddiriedir ynddynt yn yr ysgol (megis cynorthwywyr neu nyrsys ysgol) yn gwybod am y sefyllfa, gallant roi cymorth emosiynol, academaidd ac ymarferol i'r plentyn, er nad yw hyn yn digwydd bob amser.'*

## Nodau'r llawlyfr hwn

Ac ystyried yr amrywiaeth yn ymatebion ysgolion i anghenion plant sy'n teimlo effaith carcharu, nod y llawlyfr hwn yw darparu'r canlynol ar fformat hygyrch:

- Gwybodaeth am rai o'r prif bethau a all effeithio ar blant ag aelod teulu yn y carchar, yn enwedig fel y maent yn effeithio ar blant yn yr ysgol.
- Gwybodaeth am effeithiau penodol ar blant yn ystod gwahanol gyfnodau'r hyn a elwir yn 'daith y troseddwr'.
- Fframwaith i awdurdodau lleol, ysgolion a staff ysgolion i ddiwallu anghenion plant sydd ag aelod teulu yn y carchar.
- Rhannu arfer da ar gyfer y gr p hwn o blant. Felly, lle bynnag y bo'n bosibl, rydym wedi cynnwys geiriau plant a theuluoedd sydd wedi teimlo effaith carcharu, ynghyd ag enghreifftiau o arfer da.

Mae'r llawlyfr hwn wedi'i anelu at ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae'n bwysig cydnabod y bydd plant o oed gwahanol yn cael profiadau gwahanol pan fydd aelod o'u teulu yn y carchar. Bydd yr effaith ar hunaniaeth, rhwydweithiau cymorth, perthnasoedd teuluol a lefelau gwytnwch plentyn neu berson ifanc i gyd yn dibynnu ar ei oed. Am y rheswm hwn, mae'r disgrifiadau achos yn y llawlyfr hwn yn adlewyrchu profiadau plant o oedrannau amrywiol a sut gwnaeth ysgolion ymateb iddynt.

Mae'r llawlyfr hwn wedi'i ysgrifennu i gynnig dulliau i ysgolion cyfan; yn ogystal â staff addysgu, mae'n berthnasol i staff gweinyddol, cynorthwywyr amser cinio a staff cymorth sydd ddim yn athrawon.

Adran dau:

# Effaith bosibl carcharu rhiant neu aelod arall o'r teulu

Yn seiliedig ar dystiolaeth o ymchwil ac ymarfer, erbyn hyn mae gennym ddarlun cymharol gynhwysfawr o rai o effeithiau posibl carcharu aelod o'r teulu ar fywydau plant. Rydym yn gwybod bod amrywiaeth sylweddol yn y ffordd y mae plant yn ymateb i garcharu aelod o'r teulu ac yn effaith hynny ar eu bywydau. Felly, mae'n bwysig peidio â thybio y bydd angen yr un cymorth neu'r un mathau o gymorth ar bob plentyn a theulu.

Wrth adolygu effeithiau carcharu, mae'n bwysig gweld y 'plentyn cyfan' a pheidio â chanolbwyntio ar y plentyn yn ei deulu/ei theulu agosaf, ond ystyried hefyd y berthynas rhwng teulu'r plentyn a'u cymuned neu gymdogaeth.

Yn y llawlyfr hwn, byddwn yn canolbwyntio'n bennaf ar effaith carcharu rhiant, ond rydym yn cydnabod y gallai carcharu aelodau eraill o'r teulu, fel brawd neu chwaer hŷn, nain neu daid, neu bartner rhiant gael llawn cymaint o effaith ar blentyn. Dylai fod yr hyn sydd wedi'i ysgrifennu yma'n berthnasol yn y sefyllfaoedd hynny hefyd.

## Sut mae hyn yn effeithio ar blant

Mae'r adran hon yn cynnwys y mathau canlynol o effaith:

- Lles emosiynol y plentyn.
- Effaith ar deulu'r plentyn/person ifanc a sgil effeithiau uniongyrchol i'r plentyn.
- Y plentyn yn y gymuned/y gymdogaeth.
- Effaith yn yr ysgol.
- Effeithiau hirdymor.

### Lles emosiynol y plentyn

Gan ddibynnu ar gryfder y berthynas rhwng y plentyn neu berson ifanc a'r rhiant neu'r aelod teulu arall sydd yn y carchar, gallai brofi rhai neu bob un o'r effeithiau emosiynol canlynol:

- Teimlad o dristwch am golli'r rhiant.

> **'Doeddwn i ddim yn gwybod ei fod yn mynd i'r carchar, ond roeddwn i'n drist ar ôl cael gwybod... roeddwn i'n teimlo'n drist ar ôl gwybod nad oedd yn dod adref.'**
>
> *(Bachgen saith mlwydd oed, Gill, 2009)*

- Pryder am yr hyn sy'n digwydd i'r aelod teulu yn y carchar, er enghraifft poeni ei fod/ei bod yn unig neu'n drist, neu'n cael ei frifo/ei brifo.
- Anawsterau emosiynol, er enghraifft teimlo'n bryderus, peidio â mynegi teimladau a chael anhawster cysgu.
- Newidiadau ymddygiad.

> **'[Mae fy mhlentyn 10 oed] yn ymddwyn yn reit ddrwg. Problemau agwedd go iawn, bod yn anufudd... aeth ei batrymau cysgu ar chwâl, efallai am ei fod yn mynd yn hŷn. [Mae'r carcharu] ar ei feddwl drwy'r amser. Achos hyd yn oed yn yr ysgol, maen nhw'n cael trafferth efo fo'n crio ac yn dweud "Dwi isio dad. Dwi'n methu dad...". Mae'n dechrau cwffio efo [ei] frawd...'**
>
> *(Partner tad mewn carchar; Gill, 2009)*

Gallai effaith gronnus y ffactorau uchod ei gwneud yn fwy tebygol i'r plentyn brofi anawsterau iechyd meddwl. Roedd y prosiect COPING, a oedd yn cynnwys arolwg o 291 o blant saith i 17 mlwydd oed yn y DU, yn ceisio asesu pa gyfran o'r plant oedd ag angen ymyriadau penodol yn seiliedig ar eu hiechyd meddwl (Gallager, 2012). Dyma oedd y casgliad:

*'Y ffigur amlycaf ymysg y data hyn yw bod o leiaf 25 y cant o blant 11 oed a hŷn – yn ôl sgorau eu rhieni neu ofalwyr – yn wynebu risg uchel o broblemau iechyd meddwl... Mae cyfran y plant dan 11 mlwydd oed sy'n wynebu risg uchel o broblemau iechyd meddwl yn is na hyn, ond yn dal i fod yn arwyddocaol...'*

## Effaith ar deulu'r plentyn/person ifanc a sgil effeithiau uniongyrchol i'r plentyn

Gan ddibynnu ar swyddogaeth ac arwyddocâd y rhiant sy'n mynd i'r carchar yn y teulu cyn y carcharu, gall y teulu ddioddef rhai o'r effeithiau canlynol, sy'n gallu achosi sgil effeithiau i'r plentyn:

- Efallai y bydd y rhiant sy'n dal i fod gartref dan bwysau mawr ac yn ceisio ymdopi â theimladau o golled a dicter am yr hyn sydd wedi digwydd. Gall hyn effeithio ar ei allu/ei gallu i fod yn rhiant da:

**'Y pethau anoddaf ydy bod rhaid i chi gadw'r tŷ i fynd, rhaid i chi ofalu am eich plant, yn ariannol rhaid i chi fod yn annibynnol ac yna rhaid i chi roi cymorth meddyliol i rywun arall pan mae angen y cymorth hwnnw arnoch chi eich hun… Rydw i eisiau rhywbeth yn ôl i mi, ond does yna ddim byd ar gael.'**

*(Partner rhiant mewn carchar; Gill, 2010)*

- Gallai sefyllfa ariannol y teulu newid yn sylweddol, er enghraifft os yw'r carcharu'n golygu colli incwm llawn-amser. Efallai y bydd costau'n gysylltiedig â'r carcharu hefyd, yn enwedig costau ymweld.
- Efallai y bydd angen i'r teulu symud i lety gwahanol, er enghraifft os nad ydynt yn gallu talu morgais mwyach, os ydynt yn dymuno dechrau o'r newydd neu oherwydd nad ydynt yn teimlo bod croeso iddynt yn eu hardal mwyach oherwydd natur y trosedd a gyflawnwyd. Gall y newid hwn chwalu rhwydweithiau cymorth a rhwydweithiau ffrindiau'r plentyn, a chael effaith anffafriol ar ei bresenoldeb/ei phresenoldeb yn yr ysgol.
- Mewn rhai sefyllfaoedd, gall carcharu rhiant arwain at newid y prif ofalydd. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i garcharu mam.

## Y plentyn yn y gymuned/y gymdogaeth

Gall effeithiau ar y plentyn sy'n gysylltiedig â pherthynas y plentyn neu'r teulu â'r gymuned neu'r gymdogaeth gynnwys:

- Mwy o debygrwydd y bydd y teulu'n symud; byddai hynny'n rhwystro'r plentyn rhag defnyddio rhwydweithiau cymorth sydd wedi'u sefydlu.
- Stigma gan rieni plant eraill; efallai na fyddant am i'w plant fod mewn cysylltiad â phlentyn ag aelod teulu yn y carchar.
- Ofn ynghylch 'pwy sy'n gwybod' a bod yn ansicr o ymateb pobl eraill.

**'Os byddai fy ffrindiau i gyd… os byddwn i'n dweud wrthyn nhw a'u bod nhw'n dal i fod yn ffrindiau i mi.'**

*(Bachgen deg mlwydd oed y gofynnwyd iddo beth fyddai'n gwneud bywyd yn yr ysgol yn haws tra'r oedd ei dad yn y carchar; Gill, 2010)*

- Stigma gan y gymuned gyffredinol a thensiwn neu elyniaeth leol oherwydd y trosedd. Mewn rhai achosion, gall hyn ddigwydd oherwydd sylw i'r trosedd gan y cyfryngau lleol.

Gall y ffactorau cymdeithasol uchod hefyd i gyd gael effaith gronnus ar gyfleoedd y plentyn i chwarae a gwneud ffrindiau, yn ogystal ag effaith gronnus ar y siawns y caiff y plentyn ei fwlio/ei bwlio.

## Effaith yn yr ysgol

Dyma rai effeithiau posibl ar y plentyn yn yr ysgol yn benodol:

- Gallai gwaith ysgol y plentyn, a'i allu/ei gallu i ganolbwyntio, waethygu.

**'Mae ei gwaith ysgol hi'n ofnadwy. Daeth ei hadroddiad ysgol hi adref ar ddiwedd y tymor ac roedd popeth ynddo'n sôn am y rhai misoedd diwethaf. Mae'n eithaf amlwg beth sy'n effeithio arno.'**

*(Partner rhiant mewn carchar, yn siarad am eu merch; Gill, 2010)*

- Gallai ei (h)ymddygiad waethygu'n sylweddol.

**'Ydw, rydw i'n ymddwyn yn waeth yn yr ysgol. [Rydw i'n] cael fy symud o wersi am fod yn ddrwg a chwarae o gwmpas. Weithiau, rydw i jyst yn mynd yn flin.'**

*(Bachgen tair ar ddeg mlwydd oed â llystad yn y carchar; Gill, 2010)*

- Efallai y bydd y teulu wedi dweud wrth y plentyn am beidio â dweud wrth neb yn yr ysgol. Gallai hyn greu tensiwn ac ansicrwydd.

**'Heb ddweud wrth yr ysgol. Wnes i ddweud wrth y plant am beidio dweud dim.'**

*(Mam; Gill, 2009)*

- Efallai y bydd y plentyn a'r teulu'n profi stigma a gelyniaeth gan deuluoedd eraill yn yr ysgol.

**'Ar ôl iddo fod yn y papur, wnes i gerdded i lawr [i'r] ysgol ac roedd pawb yno'n edrych. Dwi'n meddwl, dydy hyn ddim byd i'w wneud efo fi [a] dydy hyn ddim byd i'w wneud efo'r plant. Ond roedd pawb yn sibrwd wrth i chi gerdded heibio.'**

*(Mam; Gill, 2009)*

- Efallai y bydd y plentyn yn profi bwlio.

**'Roedd yna ddigwyddiad [gyda] bachgen oedd yn gwybod am fy nhad ac roedd o'n dweud llwyth o stwff ofnadwy a doedd yr athro ddim yn mynd i wneud dim byd am y peth. Roedden nhw jyst yn chwerthin am y peth.'**

*(Merch bedair ar ddeg mlwydd oed; Gill, 2010)*

## Effeithiau hirdymor

Yn ogystal â'r effaith uniongyrchol ar y plentyn, mae ymchwil wedi dangos bod carcharu rhiant yn effeithio ar ei ganlyniadau hirdymor. Er enghraifft, mae plant carcharorion tua theirgwaith yn fwy tebygol o ymwneud â gweithgarwch troseddol na'u cyfoedion (SCIE, 2008). Maent hefyd dros ddwywaith mor debygol o brofi anawsterau iechyd meddwl yn ystod eu bywydau (SCIE, 2008).

# Ffactorau sy'n gallu newid yr effaith ar blant

Mae pob plentyn sy'n teimlo effaith carcharu aelod o'r teulu'n cael profiad unigryw. Mae ymchwil wedi dangos amrywiaeth eang yn nifer a nodweddion yr anghenion cymorth sydd gan blant a theuluoedd yn y sefyllfa hon. I rai teuluoedd, hwn fydd eu profiad cyntaf o'r system cyfiawnder troseddol; bydd eraill wedi bod yn ymwneud â hi ers blynyddoedd lawer (Wright a Khan, 2010).

Bydd gan blant unigol anghenion cymorth gwahanol, yn enwedig o ran iechyd meddwl. Felly, rhaid i ysgolion ac asiantaethau eraill fod yn ymwybodol o effeithiau cyffredinol carcharu aelod o'r teulu ar y plentyn, ond rhaid iddynt hefyd weld y plentyn unigol a'r patrwm penodol o anawsterau a heriau sy'n ei wynebu.

Dyma rai o'r ffactorau penodol sy'n gallu dylanwadu ar yr effaith ar blentyn:

- Rhyw'r plentyn.
- Rhyw'r rhiant sydd yn y carchar.
- Amgylchedd blaenorol y cartref.
- Faint mae teuluoedd yn ei ddweud wrth blentyn am garcharu rhiant.
- Natur y trosedd.

## Rhyw'r plentyn

Mae rhywfaint o dystiolaeth yn nodi bod plant o wahanol rywiau'n gallu profi ymatebion gwahanol i garcharu rhiant a'r cyfnodau sy'n dilyn hynny, gan gynnwys rhyddhau o'r carchar. Mae Murray a Farrington (2005) wedi nodi bod bechgyn yn tueddu i ddangos ymddygiad problemus tuag allan, a bod merched yn tueddu i gadw eu hymateb yn fwy mewnol. Fodd bynnag, gall hyn ddibynnu ai'r fam ynteu'r tad sydd yn y carchar. Gall bechgyn, er enghraifft, ymateb yn wahanol i garcharu eu mam nag i garcharu eu tad, ac i'r gwrthwyneb.

## Rhyw'r rhiant sydd yn y carchar

Er bod effaith carcharu tad yn gallu cael effaith ddifrifol ar blentyn, gall carcharu mam gael canlyniadau mwy difrifol fyth, yn enwedig o ran telerau byw neu drefniadau gofal.

Mae mamau'n llawer mwy tebygol o fod â chyfrifoldeb llwyr am ofal plant, felly mae'r plentyn yn llawer mwy tebygol o orfod symud o gartref y teulu os caiff y fam ei charcharu. Mae ymchwil wedi dangos mai dim ond 5 y cant o blant sy'n aros yn eu cartrefi eu hunain ar ôl i'w mam gael ei charcharu (Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, 2000; Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, 2012b). Er y bydd tadau rhai plant yn gofalu amdanynt ar ôl i'w mam gael ei charcharu (Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, 2012b), bydd llawer yn derbyn gofal gan aelodau'r teulu ehangach (yn enwedig neiniau a theidiau), neu'n mynd i'r system gofal. Os yw'r plentyn yn mynd i'r system gofal neu i fyw gyda rhieni maeth, gall hyn greu goblygiadau i'r fam, megis materion rhianta, pan gaiff ei rhyddhau (Gelsthorpe et al, 2007). Hefyd, os yw trefniadau byw'r plentyn yn newid, gall hyn hefyd effeithio ar berthnasoedd personol a theuluol eraill yn ogystal â pherthnasoedd â gweithwyr proffesiynol allweddol lleol.

Gall mamau hefyd wynebu anawsterau ym maes tai wrth adael y carchar. Gall rhai menywod golli eu cartrefi o ganlyniad i gael eu carcharu. Un dilema penodol yw'r sefyllfa 'Catch-22' lle na all y fam gael llety oni bai bod ei phlant yn byw gyda hi, ond nad yw ei phlant yn cael dychwelyd ati heb fod ganddi lety (Corston, 2007). Gall hyn ymestyn y cyfnod o ansicrwydd a dryswch i'r plant.

## Amgylchedd blaenorol y cartref

Gall bywydau rhai plant wella o ganlyniad i'r carcharu, yn enwedig lle bu cynnwrf a helynt o ganlyniad i ymddygiad troseddol rhiant. Yn benodol, gall bywyd plentyn wella mewn sefyllfaoedd lle:

- Mae cymaint o densiwn ac anghytgord wedi bod yn y teulu nes bod carcharu rhiant yn cynhyrchu amgylchedd mwy sefydlog a magwrol i'r plentyn.
- Mae'r rhiant sy'n mynd i'r carchar wedi defnyddio swm anghymesur o incwm y teulu ar gyfer ei (h)anghenion ei hun ac felly mae mwy o adnoddau ariannol ar gael i'r plentyn o ganlyniad i'r carcharu.

**'[Rydw i'n] teimlo llai o straen… Mae popeth gyda'r plant yn haws… Mae hi'n dawel yma, [ac rydym ni mewn] sefyllfa ariannol well. Mae popeth yn haws.'**

*(Mam plant pump a saith mlwydd oed; Gill, 2009)*

## Faint mae teuluoedd yn ei ddweud wrth blentyn am garcharu rhiant

Bydd rhai plant yn gwybod mwy na'i gilydd am garcharu'r aelod o'u teulu. Efallai y bydd rhieni'n penderfynu peidio â dweud wrth blentyn iau am y carcharu o gwbl, ac efallai y bydd y plentyn yn credu bod y rhiant yn 'gweithio i ffwrdd'. Os yw plentyn yn cael gwybod am y carcharu, efallai na fydd yn gwbl ymwybodol o natur y trosedd.

Efallai na fydd rhai plant yn glir ychwaith am ba mor hir y bydd yr aelod o'r teulu yn y carchar, yn enwedig plant ifanc sydd â llai o ddealltwriaeth o gyfnodau hir.

## Natur y trosedd

Bydd gwahanol fathau o droseddau'n effeithio'n wahanol ar brofiad y plentyn. Gall rhai troseddau beri heriau llawer mwy i'r plentyn neu berson ifanc nag eraill. Efallai y bydd y plentyn wedi bod yn ddioddefwr uniongyrchol i'r trosedd. Yr achosion mwyaf eithafol fydd pan fydd y plentyn wedi dioddef cam-drin rhywiol a bod y rhiant yn y carchar o ganlyniad i hynny. Yn y sefyllfaoedd hyn, yn ogystal â'r effeithiau niweidiol eraill ar y plentyn, efallai y bydd yn teimlo rhyw fath o fai am bod y rhiant yn y carchar.

Bydd rhai troseddau hefyd yn cael effaith fwy nag eraill ar gymuned ehangach y plentyn neu ar y lleoliad ysgol.

### Enghraifft achos: Dwyn gan gyflogwr lleol

**Mae rhiant wedi dwyn swm mawr o arian gan gyflogwr lleol, gan achosi i'r busnes fynd i'r wal ac i lawer o bobl golli eu swyddi. Ar ôl i'r stori ymddangos yn y papur bro ar ôl i'r rhiant fod i'r llys a chael ei ddedfrydu, cafodd baw ci ei roi drwy flwch llythyrau'r teulu ac roedd pobl yn gweiddi arnynt yn y stryd. Cafodd y plant eu heithrio o ddigwyddiadau yn y gymuned, megis partïon pen-blwydd, gwyliau a sioeau Nadolig.**

(Yn seiliedig ar nifer o gyfweliadau a gynhaliwyd â theuluoedd; Morgan et al, heb ei gyhoeddi)




# Adran tri:

# Yr effaith ar blant yn ystod gwahanol gyfnodau 'taith y troseddwr'

Mae arestio, treial, achos llys a charcharu posibl rhiant yn gallu bod yn gyfnod hir a thrallodus i'r rhiant, y plentyn a'r teulu. Mae gwahanol gyfnodau yn 'nhaith y troseddwr', a dylai ysgolion ystyried y gwahanol effeithiau ar blant a theuluoedd ym mhob cyfnod.

Mae Gweithredu dros Deuluoedd Carcharorion wedi cyflwyno taith y troseddwr fel a ganlyn:




Gall plant fynd drwy nifer o gyfnodau 'pontio' wrth i'w rhiant neu'r aelod o'u teulu fynd drwy bob cyfnod penodol. Dylai fod staff ysgolion yn ymwybodol o'r amrediad o emosiynau y gall plant eu profi ym mhob cyfnod er mwyn gallu diwallu anghenion y plentyn cystal â phosibl.

## Arestio

Arestio'r rhiant yw'r cyfnod cyntaf o newid fel rheol. Mae bod yn dyst i arestiad yn gallu bod yn brofiad trawmatig i blant a phobl ifanc; er y bydd swyddogion heddlu'n ceisio ystyried anghenion plant, eu gwaith yn y pen draw yw cyflawni arestiad llwyddiannus. Mae arestio'n gallu digwydd yn y nos neu yn oriau mân y bore; efallai na fydd y swyddogion heddlu yn eu lifrai ac efallai y byddant yn arfog. Gall hyn gael effaith ddifrifol ar ymdeimlad plentyn o ddiogelwch yn ei gartref/ei chartref ei hun, ac yn aml bydd y teulu mewn sefyllfa ddryslyd ac emosiynol.

Efallai y bydd plant a phobl ifanc yn ymateb yn wahanol i weld arestiad; er enghraifft, efallai y bydd rhai plant yn teimlo rhyddhad bod aelod o'r teulu wedi'i symud o gartref y teulu. Fodd bynnag, mae'r ymchwil yn y maes hwn yn awgrymu bod gweld arestiad yn gyffredinol yn brofiad trawmatig i blant ac y gallant arddangos anawsterau emosiynol cyffredinol gan gynnwys gwlychu'r gwely, anawsterau i gysgu, hunllefau ac wylo cyson (McEvoy et al, 1999).

Hefyd, mae Evans (2009) yn nodi bod plant sy'n dyst i arestiad yn gallu encilio yn y cartref a'r ysgol, ac yn gallu profi hwyliau isel neu iselder. Gall plant hefyd ddangos ymdeimlad o ddryswch, yn enwedig os nad ydynt yn deall yn glir beth sydd wedi digwydd ac i ble mae'r aelod teulu wedi mynd.

Dan yr amgylchiadau hyn, gall fod yn anodd i aelodau'r teulu eistedd i lawr a siarad â'r plentyn am yr hyn sydd wedi digwydd, oherwydd yn aml iawn byddant yn profi eu trallod eu hunain. Efallai y bydd y rhiant sydd ar ôl yn poeni am ymdopi â'r arestiad a'i ganlyniadau, ac felly efallai na fydd anghenion y plentyn yn flaenoriaeth ar y pryd.

## Ymddangosiad yn y llys a thraddodi dedfryd

Efallai y bydd y cyfnod cyntaf, pan gaiff dedfryd o garchar ei thraddodi, yn peri ansicrwydd am yr hyn sy'n digwydd i'r rhiant. Efallai na fydd y plentyn a'r teulu'n gwybod i ble mae'r rhiant wedi gorfod mynd, sut i gysylltu ag ef neu hi, na beth fydd y trefniadau ymweld.

Efallai y bydd y cyfnod hwn yn nhaith y troseddwr hefyd yn gysylltiedig â phryder am 'bwy mae'n ddiogel dweud wrthynt' a beth i'w ddweud am yr hyn sydd wedi digwydd. Yn nyddiau cynnar carcharu'r rhiant neu'r aelod o'r teulu, efallai y caiff ei symud o un carchar i un arall, gan greu mwy o ansicrwydd i'r plant dan sylw.

## Carcharu

Pan gaiff rhywun ei garcharu, yn aml bydd teuluoedd yn eu cael eu hunain mewn sefyllfaoedd anghyfarwydd a all eu troi'n deuluoedd un rhiant, achosi colledion ac anhawster ariannol iddynt a'u gwneud yn fwy agored i niwed yn y gymuned.

Yn ogystal â'r effeithiau a drafodwyd yn adran dau'r llawlyfr hwn, ar ôl carcharu rhiant yn ffurfiol gall plant hefyd gymryd mwy o gyfrifoldebau gofalu neu golli cysylltiad â'u teulu ehangach, a cholli eu cymorth (e.e. nain a thaid). Gallai'r olaf o'r rhain ddigwydd oherwydd newid llety neu mewn rhai achosion oherwydd bod y teulu ehangach wedi 'gwrthod' teulu'r carcharor (Scharff-Smith a Gampell, 2011; Morgan et al, yn y wasg [a]). Mae ymdrin ag emosiynau a dymuniadau plant mewn sefyllfaoedd teuluol sy'n aml yn gymhleth yn gallu bod yn un o swyddogaethau allweddol yr ysgol.

## Enghraifft achos: Y cymorth a ddarperir gan ysgol arbennig

**Roedd gan Tommy, 13 oed, anableddau dysgu difrifol ac roedd yn mynychu ysgol arbennig. Roedd ei rieni wedi gwahanu ac roedd ei dad yn treulio dedfryd o garchar am ymosod ar ei fam. Roedd ei ysgol arbennig wedi bod yn gefnogol iawn. Roedd staff yr ysgol wedi helpu Tommy i ddeall ei deimladau o golled. Roedd yn disgrifio absenoldeb ei dad yn y carchar fel bod yn debyg i rywun fel nain neu daid yn marw. Roedd hynny'n rhyfeddol o graff. Nid oedd ei fam yn dymuno cadw mewn cysylltiad â'i chyn bartner, ond gyda chymorth prosiect cymorth i deuluoedd, helpodd i wneud trefniadau i Tommy ymweld â'i dad yn y carchar.**

Roedd Tommy yn aml yn gwylltio yn yr ysgol. Dywedodd ei fam:

**'Rydw i'n meddwl eu bod nhw wedi trin y sefyllfa'n sensitif iawn. Roedden nhw'n deall y dicter a'r rhwystredigaeth oedd yn achosi i Tommy wylltio. Roedden nhw'n siarad yn dawel ag ef ac yn gadael iddo ymlacio a chael amser iddo ei hun. Yna, bydden nhw'n siarad ag ef i ddweud nad oedd hi'n iawn iddo ymddwyn fel yna.'**

**Roedd cyfraniad yr ysgol yn cynnwys arweiniad i Tommy i ddeall sut roedd yn teimlo am y ffaith bod ei dad yn y carchar. Roedden nhw'n deall rhwystredigaeth Tommy ac yn ei helpu i'w rheoli, ac yn ei helpu i ddysgu am ymddygiad derbyniol yn yr ystafell ddosbarth.**

(Daeth yr enghraifft hon o gyfweliadau a gynhaliwyd gan staff Prifysgol Huddersfield fel rhan o brosiect COPING 2012)

Un o'r heriau allweddol i ysgol tra mae'r rhiant yn y carchar yw adnabod yr heriau y mae'r plentyn yn eu hwynebu a'i gefnogi/ei chefnogi i barhau i lwyddo yn yr ysgol.

## Enghraifft achos: Helpu plant i gadw ffocws ar eu gwaith

**Roedd Fiona, naw oed, yn derbyn gofal gan ei nain a'i thaid. Roedd ei mam yn y carchar, wedi cael euogfarn am droseddau difrifol iawn, ac roedd hi a thad Fiona wedi gwahanu; nid oedd ei thad yn hapus i Fiona siarad am ei mam. Cafodd gymorth yn bennaf gan ei nain a'i thaid a'i hysgol. Roedd ei thaid yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd ac roedd wedi dweud wrthynt am fam Fiona.**

**Disgrifiodd Fiona y cymorth a gafodd gan yr ysgol:**

**'Os byddwn i eisiau fy mam, mae'n siwr y byddai [yr athrawon] yn siarad â mi am y peth. Mae'n siwr y bydden nhw'n dweud: "Gan bwyll. Cer i olchi dy wyneb, rwyt ti wedi bod yn wylo. Sycha dy wyneb efo tywel papur ac eistedd i lawr a cher ymlaen efo dy waith. Does yna ddim byd i boeni amdano." Mae'r athrawon yn neis, dydyn nhw ddim yn gas.'**

**Roedd Fiona yn gwybod y gallai siarad â'i hathrawon pan fyddai angen, ac y byddent yn rhoi cymorth iddi. Roedd yr athrawon yn canolbwyntio ar wneud yn siŵr bod Fiona yn gwybod y gallai ddibynnu arnynt i'w helpu hi, a gwneud yn siŵr ei bod hi'n gallu dal i wneud ei gwaith ysgol ar yr un pryd.**

(Daeth yr enghraifft hon o gyfweliadau a gynhaliwyd gan staff Prifysgol Huddersfield fel rhan o brosiect COPING 2012)



# Ymweld ag aelod teulu yn y carchar

Efallai y bydd plentyn yn defnyddio llythyrau, e-bost, galwadau ffôn ac ymweliadau i gadw mewn cysylltiad â rhiant neu aelod teulu yn y carchar. Efallai y bydd rhai plant yn gweld eu rhiant yn y carchar mor aml ag y mae'r rheoliadau'n ei ganiatáu. Mae carcharorion remand (rhai sy'n cael eu dal yn y carchar wrth aros am dreial neu yn ystod treial) yn cael tri ymweliad yr wythnos, ac mae carcharorion ag euogfarn yn cael o leiaf ddau ymweliad bob pedair wythnos. Canllawiau sylfaenol y Llywodraeth yw'r rhain, ac mae rhai carchardai'n caniatáu ymweliadau ychwanegol gan ddibynnu ar ethos y carchar ac yn aml ar statws y carcharor. Er enghraifft, mewn rhai carchardai, bydd carcharorion sy'n dangos 'ymddygiad da' yn cael mwy o ymweliadau (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2011).

Bydd nifer o ffactorau hefyd yn dylanwadu ar faint o gysylltiad a gaiff y plentyn drwy ymweld â'r rhiant sydd yn y carchar:

- Pellter y carchar lle mae'r rhiant oddi wrth y cartref.
- Cryfder y berthynas rhwng rhieni'r plentyn cyn i un fynd i'r carchar, a chryfder y berthynas rhwng y plentyn a'r rhiant sydd yn y carchar (Scharff-Smith a Gampell, 2011; Martynowicz, 2011).
- Gallu'r rhiant sy'n dal i fod gartref i fynd â'r plentyn i ymweld, er enghraifft, pryd y gall ddefnyddio car neu fforddio trafnidiaeth gyhoeddus (Scharff-Smith a Gampell, 2011).
- Barn y carcharor am adael i'r plentyn ymweld ag ef/â hi.

**'Dydy o ddim yn gadael i mi fynd i ymweld ag o. Hoffwn i fynd i ymweld ag o, ond dydw i ddim yn deall pam nad ydy o eisiau i mi fynd. Mae'n dweud nad ydy o'n lle braf.'**

*(Merch bymtheg mlwydd oed, yn disgrifio barn ei thad yn y carchar am adael iddi ymweld ag ef; Gill, 2010)*

Bydd trefniadau ymweld rhai carchardai hefyd yn fwy 'cyfeillgar â theuluoedd' na'i gilydd. Bydd rhai carchardai'n cynnal 'diwrnodau teulu', lle gwneir ymdrech wirioneddol i hwyluso cysylltiad hamddenol ac estynedig rhwng y carcharor a phlentyn. Mewn carchardai â chyfleusterau ymweld llai cyfeillgar â theuluoedd, bydd amseroedd ymweld yn fyr, ni fydd llawer o breifatrwydd a bydd yr ymweliadau'n digwydd mewn amgylchedd wedi'i reoli'n llym; yn aml, ni fydd y carcharor yn cael gadael ei sedd (Scharff-Smith a Gampell, 2011; Robertson, 2007). Yn y math hwn o amgylchedd, efallai y bydd plant yn teimlo na allant ddweud wrth eu rhiant sydd yn y carchar beth sy'n digwydd yn eu bywydau, felly gall fod yr holl ymweliad yn anfoddhaol iddynt (Martynowicz, 2011). Efallai hefyd na fydd digon o weithgareddau i'r plentyn a'r carcharor eu gwneud gyda'i gilydd, a gall y profiad fod yn 'ddiflas' i rai plant (Scharff-Smith a Gampell, 2011; Robertson, 2007; Martynowicz, 2011).

Mae'r broses o ymweld â charchar yn gallu cymryd llawer o amser a gall y daith achosi blinder a syrffed i blant ifanc yn enwedig (Scharff-Smith a Gampell, 2011). Bydd rhaid i'r teulu cyfan, gan gynnwys plant, fynd drwy nifer o weithdrefnau diogelwch, gan gynnwys defnyddio cŵn synhwyro. O ganlyniad, mae'r broses o deithio i'r carchar am ymweliad yn un flinedig i lawer o deuluoedd, ac mae hynny'n gallu effeithio ar yr amser a dreulir gyda'r rhiant yn y carchar (Robertson, 2007; Martynowicz, 2011). Felly, mae ymweld â charchar yn gallu bod yn brofiad anodd i blant a'u teuluoedd.

**'Mae'n teimlo'n iawn oherwydd rydych chi'n cael ei weld o. Ond mae'n drist. Jyst ei weld o eto, gorfod dweud ta-ta.'**

*(Bachgen tair ar ddeg mlwydd oed; Gill, 2010)*

Mae ymchwil wedi awgrymu bod y cyfnod cyn ac ar ôl ymweliadau'n gallu cynyddu pryder o fewn y teulu, a gall plant ddangos amrywiaeth o symptomau corfforol, ymddygiadol ac emosiynol o gwmpas ymweliadau (Loucks, 2004; McEvoy et al, 1999).

**'Mae'n cynhyrfu'n hawdd ac yn gwylltio... Mae'n si r mai fe sydd wedi teimlo'r effaith fwyaf. Mae'n dal i wylo pan awn ni i'w weld ef ac mae fel arfer yn mynd yn anhapus pan fyddwn ni'n gadael. Mae'n ceisio peidio wylo ond gallwch chi weld ei fod e'n anhapus.'**

*(Mam yn siarad am ei mab deg mlwydd oed; Gill, 2010)*

Gall llawer o blant hefyd deimlo tristwch dwfn am adael eu rhiant yn y carchar.

**'Mae'n anodd i [fy merch] adael [ei thad] ar ôl yr ymweliadau â'r carchar. Mae hi'n wylo ac yn wylo. Mae hi'n gwybod nad ydy hi'n mynd i'w weld o.**

*(Mam yn siarad am ei merch chwe mlwydd oed; Gill, 2010)*

Mae hefyd yn bosibl y bydd plant yn poeni am ddiogelwch eu rhiant neu aelod teulu yn y carchar (Scharff-Smith a Gampell, 2011; Robertson, 2007) ac efallai y bydd eu dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd yn y carchar yn seiliedig ar ddramâu teledu neu adroddiadau yn y cyfryngau, sy'n gallu dramateiddio'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd.

Ar y cyfan, er bod ymweld yn gallu bod yn brofiad anodd i blant a'u teuluoedd, mae cadw mewn cysylltiad ag aelod teulu'n gallu bod o fudd i'r carcharor a'r plentyn fel ei gilydd. Er enghraifft, mae Dallaire (2007) yn nodi bod ymweld â rhiant yn y carchar yn gallu helpu i ddiogelu plant sydd â mam yn y carchar. Felly, argymhellir bod plant yn cadw mewn cysylltiad â'u rhiant sydd yn y carchar cyn belled â bod hynny er pennaf les y plentyn.

Mae cadw mewn cysylltiad, fodd bynnag, yn dibynnu i raddau helaeth ar drefniadau ymarferol a chymorth gan y rhiant arall neu aelodau'r teulu (Scharff-Smith a Gampell, 2011; Robertson, 2007) a gan ysgolion (Morgan et al yn y wasg [a]; Robertson, 2011).

Gall ysgolion chwarae rhan bwysig wrth annog cyswllt teuluol drwy ymateb yn sensitif ac yn adeiladol i geisiadau am amser o'r ysgol i ymweld â rhiant neu aelod teulu arall yn y carchar. Mae ymchwil wedi dangos bod ysgolion sy'n beirniadu plant sy'n absennol dan amgylchiadau o'r fath yn cynyddu'r tensiwn o fewn y teulu ac yn aml yn golygu mai dim ond yn ystod gwyliau'r ysgol y gall y plentyn ymweld (Morgan et al, yn y wasg [a]). O ganlyniad, gall plant ddechrau colli cysylltiad â'u rhiant gan fod yr amser rhwng ymweliadau'n rhy hir i gynnal perthynas ystyrlon.

Hefyd, gall ysgolion gefnogi plant a phobl ifanc drwy ddarparu cymorth emosiynol ychwanegol a thawelu eu meddyliau cyn ac ar ôl ymweliad (Ramsden, 1998). Mae Poehlmann (2005) yn awgrymu y gall fod ar blant ifanc yn enwedig angen cymorth emosiynol ychwanegol a thawelu eu meddyliau er mwyn ymdopi'n effeithiol ag ymweliadau â charchar.

## Rhyddhau o'r carchar

Mae rhyddhau rhiant neu aelod o'r teulu o'r carchar yn gallu achosi llu o emosiynau sy'n gwrthdaro â'i gilydd. Er y bydd rhai plant wedi cyffroi oherwydd bod yr aelod o'u teulu'n dychwelyd, efallai y bydd plant eraill yn teimlo ofn, pryder neu ansicrwydd. Efallai y bydd y swyddogaethau a'r ddynameg yn y cartref wedi newid yn ystod y cyfnod yn y carchar, felly gall rhyddhau arwain at gyfnod o newid ac ailgymhwyso. Efallai y bydd plant yn teimlo'n bryderus, hyd yn oed os ydynt yn edrych ymlaen at weld yr aelod o'u teulu unwaith eto.

Ar ôl eu rhyddhau, rhaid i lawer o garcharorion ddysgu o'r newydd sut i fod yn rhieni, a rhaid i blant addasu i'r ffaith bod y rhiant dan sylw yn eu cartref. Os yw plant wedi cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r carcharor, mae'n bosibl y bydd y berthynas yn fwy cyfarwydd neu'n haws. Fodd bynnag, os nad yw'r plentyn neu berson ifanc wedi gweld y rhiant neu'r aelod o'r teulu ers iddo/iddi fynd i'r carchar, mae'n bosibl y bydd llawer o bethau wedi newid yn eu bywydau a fydd yn effeithio ar sut byddant yn rhyngweithio â'r unigolyn dan sylw. Efallai y bydd arnynt angen amser i ddod i adnabod ei gilydd unwaith eto.

Aeth McEvoy et al (1999) i gyfweld â charcharorion â chymhelliant gwleidyddol a'u partneriaid yng Ngogledd Iwerddon a gwelsant eu bod yn tueddu i bryderu am eu perthynas â'u plant, eu swyddogaethau yn y cartref, trefniadau ymarferol a dod i adnabod ei gilydd unwaith eto. Mae cyfweliadau â phlant wedi dangos pryderon tebyg, yn ogystal â phryderon y gallai'r rhiant aildroseddu a theimlad bod angen iddynt fod yn wyliadwrus er mwyn atal hyn rhag digwydd (Morgan et al, yn y wasg [a]).

Efallai y bydd plant sy'n disgwyl am ryddhau rhiant neu aelod o'r teulu o'r carchar yn cyffroi ac yn dymuno siarad am y rhyddhau. Mae hefyd yn bosibl y byddant yn canolbwyntio ar fanylion bach a threfniadau ymarferol sy'n peri pryder iddynt. Mae ymchwil wedi dangos bod angen cymorth ychwanegol ar lawer o blant yn y cyfnod hwn, ond yn aml iawn mae gwasanaethau cymorth swyddogol wedi dod i ben gan nad yw'r rhiant yn y carchar mwyach (Morgan et al, yn y wasg [a]).

# Adran pedwar:
# Strategaethau ac arfer da i awdurdodau lleol ac ysgolion

Nod yr adran hon yw rhoi canllawiau ymarferol i awdurdodau lleol, ysgolion a staff ysgolion, yn seiliedig ar yr arfer da a'r gwaith ymchwil diweddaraf, i'w helpu i ddatblygu amgylchedd cefnogol cyfforddus i blant sy'n teimlo effaith carcharu.

Mae'r canllawiau wedi'u crynhoi ar ffurf rhestri gwirio yn atodiad un.

## Adnabod y plant yr effeithiwyd arnynt

Un o'r heriau allweddol yn y maes gwaith hwn yw adnabod y plant penodol yr effeithiwyd arnynt (SCIE, 2008). Yn aml, mae adnabod plant carcharorion yn ddibynnol ar wybodaeth leol ac yn eithaf aml ni chaiff y wybodaeth honno ei rhannu ag ysgolion. Awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i hwyluso'r gwaith o gasglu'r wybodaeth hon yn ganolog a'i dosbarthu i ysgolion. Un enghraifft o awdurdod lleol sy'n gwneud y gwaith hwn yw Rhondda Cynon Taf.

### Enghraifft achos: Gwasanaeth Presenoldeb a Lles Rhondda Cynon Taf – Proffilio Bregusrwydd

**Cafodd proffilio bregusrwydd ei ddatblygu yn 2012 gan y Gwasanaeth Presenoldeb a Lles fel ffordd o adnabod yn gynnar y plant a'r bobl ifanc hynny sydd mewn perygl o ymddieithrio o ddysgu o ganlyniad i rwystrau sy'n eu hwynebu y tu allan i amgylchedd yr ysgol. Mae'n defnyddio ystod o ddata a gedwir gan yr Awdurdod Lleol am ffactorau hysbys yr ystyrir eu bod yn cynyddu'r risg o ymddieithrio (Filmer-Sankey a McCrone; 2012).**

**Mae'r broses o sgorio'r ffactorau hyn yn nhermau eu cyfraniad at allu'r unigolyn i ymgysylltu a pha mor barhaol ydynt wedi arwain at adroddiad pwysoli a ddefnyddir gyda phob ffactor i roi modd o sgorio ymddieithrio posibl disgyblion. Yna, caiff y sgorau eu rhoi mewn bandiau â statws Coch, Ambr, Gwyrdd a Gwyn. Mae rhestri disgyblion â statws coch, ambr neu wyrdd ar gael i ysgolion uwchradd bob tymor, ond mae'r sgorau'n aros yn gyfrinachol. Y gobaith yw y bydd ysgolion yn defnyddio hyn ar y cyd ag agweddau lles y Fframwaith Arolygu i adnabod, tracio a monitro disgyblion agored i niwed, a hefyd i roi sail i benderfyniadau am wariant y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion.**

**Mae gwaith yn parhau i adeiladu'r setiau data sydd eu hangen i ymdrin â ffactorau sy'n cyfrannu at ymddieithrio ond lle nad oes setiau data swyddogol ar gael, gan gynnwys plant sy'n teimlo effaith carcharu rhiant. Gan ddefnyddio Systemau Gwybodaeth Rheoli Addysg canolog i storio'r wybodaeth berthnasol o amrywiaeth o ffynonellau'n gyfrinachol, maent yn araf yn casglu'r set data sydd ei hangen i'w chynnwys yn y broses Proffilio Bregusrwydd.**

I gael mwy o wybodaeth, anfonwch e-bost i aws@rctcbc.gov.uk

Filmer-Sankey, C., a McCrone, T., (2012) *"Developing Indicators for Early Identification of Young People at Risk of Temporary Disconnection from Learning (NFER Research Programme: From Education to Employment)"*. Slough: SCYA

## Strategaethau cymorth

Yn yr adran hon, rydym yn awgrymu nifer o strategaethau i roi cymorth i blant y gellir eu defnyddio ar dair lefel:

- Awdurdod lleol.
- Ysgol.
- Staff ysgol.

### Lefel awdurdod lleol

Dylai awdurdodau lleol:

- Cydnabod bod y grŵp hwn o blant yn grŵp blaenoriaeth a'u cynnwys mewn Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc (SCIE, 2008; Morgan et al, yn y wasg [a]).
- Enwi unigolyn allweddol dynodedig ar lefel awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y grŵp hwn o blant yn yr ardal. Yr unigolyn hwn fyddai cyswllt uniongyrchol yr unigolyn dynodedig ar lefel ysgolion (Morgan et al, yn y wasg [a]).
- Trefnu hyfforddiant i holl staff ysgolion ar y mater hwn (Y Cenhedloedd Unedig, 2011; Ramsden, 1998).
- Datblygu gwybodaeth briodol a sensitif a thaflenni i blant, teuluoedd a staff ysgol ynglŷn â'r pwnc (Morgan et al, yn y wasg [b]; Ramsden, 1998).
- Datblygu perthynas rhwng rhanddeiliaid allweddol a chanfod ffyrdd o gynhyrchu a rhannu gwybodaeth am y grŵp hwn o blant mewn ffordd gyfrinachol a pharchus. Gallai hyn gynnwys y strategaethau canlynol:
  - Rhoi gwybodaeth a thaflenni mewn llysoedd lleol i annog teuluoedd i ddweud wrth yr ysgol yn gyfrinachol.
  - Rhoi gwybodaeth a thaflenni yn ystafelloedd ymweld carchardai lleol.
  - Gwasanaethau rheoli troseddwyr yn trafod buddion hysbysu ysgolion â'r rhieni y maent mewn cysylltiad â hwy.
  - Asiantaethau lleol sy'n gweithio yn y gymuned yn hybu anghenion plant carcharorion ac yn annog rhieni y maent mewn cysylltiad â hwy i roi gwybod i'r ysgol.
  - Datblygu grwpiau llywio sy'n cysylltu cynrychiolwyr asiantaethau allweddol.
- Datblygu polisi ar lefel awdurdod lleol sy'n amlinellu sut bydd ysgolion yn rhoi cymorth ac ymateb i blant y mae hyn yn effeithio arnynt. Mae enghreifftiau da ar gael o arfer gorau y gellir eu defnyddio fel fframwaith neu dempled, er enghraifft y canllawiau a gynhyrchwyd gan Gyngor Swydd Rhydychen (Evans, 2009).

### Enghraifft Achos: Y Cytundeb Waliau Anweladwy

**Mae'r Cytundeb Waliau Anweladwy'n rhan o'r prosiect Waliau Anweladwy Cymru a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr. Mae'n her pedair blynedd i weithio'n ddwys, ac mewn partneriaeth ar draws sectorau, gyda charcharorion, eu teuluoedd a'u plant, i gyd gyda'i gilydd, tra mae'r unigolyn yn y carchar ac ar ôl ei ryddhau, i leihau aildroseddu, lleihau troseddu mewn dwy genhedlaeth, a hybu gwell canlyniadau i blant a chynhwysiant cymunedol.**

Nod penodol y Cytundeb Waliau Anweladwy yw bod pob ysgol yn cymryd rhan weithredol yn y broses o gynnig cymorth ac arweiniad i ddisgyblion sydd â rhiant neu berthynas agos yn y carchar.

Maent yn gofyn i Benaethiaid enwi Un Pwynt Cyswllt yn eu hysgol a all gael cymorth tîm Waliau Anweladwy Cymru yng Ngharchar Parc i wneud y canlynol –

- **Cyflenwi'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar yr UPC: gwefannau perthnasol, gwaith ymchwil, elusennau, cyfeirio ac ati.**
- **Rhoi manylion cyswllt, fel y gall yr UPC gysylltu â Charchar Parc yn uniongyrchol ag unrhyw gwestiynau neu bryderon.**
- **Rhoi posteri/gwybodaeth perthnasol a sensitif sy'n addas i oed y disgyblion i ysgolion er mwyn eu harddangos.**




- **Cynnig cyfle i bob UPC i fynychu digwyddiad chwarterol yn y carchar (wedi'i gynnal rhwng 16.45 – 18.45pm), lle cânt fynd drwy'r profiad ymweld, o safbwynt ymwelwyr sy'n blant a theuluoedd, cyn cael cyflwyniad, trafodaeth a chyfle i rwydweithio.**

**Yr UPC fydd yr unigolyn y gall plant a/neu deuluoedd fynd ato/ati i gael cymorth a chyngor. Nid mater o ganfod plant yw hyn, ond creu'r cyfle i roi cymorth pe bai ei eisiau arnynt.**

I gael mwy o wybodaeth, anfonwch e-bost at Corin Morgan-Armstrong Corin.morgan-armstrong@uk.g4s.com

## Lefel ysgolion

Mae lles plant sy'n teimlo effaith carcharu aelod o'r teulu'n rhywbeth y gellir ei wella ar lefel ysgolion. Yn nhermau Fframwaith Arolygu Cyffredin ESTYN, gall ysgolion ddefnyddio'r Rhestri Gwirio yn Atodiad 1 ar dudalen 38-39 fel sail i gasglu tystiolaeth o sut maent yn diwallu anghenion y grŵp agored i niwed hwn.

Dylai ysgolion:

- Sicrhau bod holl staff yr ysgol yn cael hyfforddiant am y mater. Dylai'r hyfforddiant ymdrin â'r effeithiau ar blant, sut y gellir rhoi cymorth i blant a phrofiadau plant o ymweld â charchardai (Cenhedloedd Unedig, 2011).

## Enghraifft achos: Cynllun Gweithredu Strategol Lles Addysg a Dysgu Gydol Oes Rhondda Cynon Taf

**Mae Cynllun Gweithredu Strategol Lles Addysg a Dysgu Gydol Oes Rhondda Cynon Taf yn cael ei adolygu**

**a'i ddiwygio'n flynyddol. Mae'n nodi'r camau i'w cymryd gan wasanaethau Addysg a Dysgu Gydol Oes gyda'r nod o wella lles dysgwyr yn RhCT. Er bod gwella lles pob plentyn a pherson ifanc yn flaenoriaeth, mae ffocws penodol wedi'i roi ar gulhau'r bwlch i blant a phobl ifanc a grwpiau sy'n wynebu rhwystrau penodol o ran presenoldeb ac ymrwymiad i ddysgu. Mae'r Cynllun Gweithredu Strategol hwn yn cynnwys plant sy'n teimlo effaith carcharu rhiant.**

**Drwy gydnabod bod plant â rhieni yn y carchar yn gohort arbennig o agored i niwed, mae'r cynllun yn codi proffil eu hanghenion ar draws gwasanaethau ac ysgolion.**

- Codi ymwybyddiaeth o'r grŵp hwn o blant o fewn ysgolion (Morgan et al, yn y wasg [a]; SCIE, 2008; Ramsden, 1998).

## Enghraifft achos: Mentoriaid Ymyriadau Teuluol (MYT), Waliau Anweladwy Cymru (WAC)

**Cyn i WAC ddechrau ymwneud â'r achos, dywedodd yr ysgol fod ymddygiad Morgan wedi gwaethygu cyn ac ar ôl yr ymweliadau â'r carchar gyda'i dad. Roeddent wedi gweld ei fod yn bwlio plant eraill ac yn dangos ymddygiad aflonyddgar yn yr ystafell ddosbarth.**

**Dechreuodd y MYT hwyluso ymweliadau rhwng Morgan a'i dad yn y carchar gan sicrhau bod yr ysgol yn cael diweddariad bob tro. Roedd yr ysgol yn gefnogol o waith y gwasanaeth ac yn gallu rhoi adborth am unrhyw wybodaeth berthnasol o ran newidiadau ymddygiad. Hefyd, cafodd yr ysgol ddealltwriaeth o amgylchiadau'r teulu er mwyn sicrhau eu bod yn defnyddio dulliau cyfannol wrth roi sylw i bryderon.**

**Mae'r ysgol wedi bod yn rhagweithiol iawn wrth ganiatáu i MYT fynd i'r ysgol i gynnal sesiynau â'r plant dan sylw. Maent wedi bod yn hyblyg wrth ganiatáu i'r plant fynd i'r carchar i glybiau gwaith cartref a gwaith grŵp teuluol. Maent wedi dweud eu bod yn ystyried bod hwn yn weithgaredd addysgol sy'n canolbwyntio ar les emosiynol a phersonol y plant.**

- Datblygu polisi ysgol ar sut i roi cymorth i blant yn y sefyllfa hon. Mae Cyngor Swydd Rhydychen wedi datblygu polisi ysgol y gellid ei ddefnyddio fel templed (Evans, 2009). Cysylltu'r polisi ysgol hwn â pholisi'r awdurdod lleol a sicrhau bod yr holl staff yn deall y polisi ac yn glynu ato (Morgan et al, yn y wasg [a]).
- Defnyddio dulliau ysgol gyfan, yn enwedig wrth ymdrin ag unrhyw ymddygiad heriol gan blant yn y sefyllfa hon.
- Enwi unigolyn dynodedig yn yr ysgol i fod yn gyfrifol am y grŵp hwn o blant (Evans, 2009; Morgan et al, yn y wasg [a]). Dylai'r arweinydd ysgol dynodedig gysylltu â'r unigolyn dynodedig yn yr awdurdod lleol a bod ar gael i blant a theuluoedd yn yr ysgol. Dylai'r aelod staff dan sylw gael hyfforddiant a goruchwyliaeth briodol, a gall weithredu fel eiriolwr posibl dros blant yn y sefyllfa hon.

## Enghraifft achos: Arweinydd ysgol wedi'i enwi gan Gyngor Swydd Rhydychen

Mae canllawiau Cyngor Swydd Rhydychen (Evans, 2009) yn rhoi'r cyfrifoldebau canlynol i'r arweinydd ysgol dynodedig ar gyfer plant ag aelod teulu yn y carchar:

- Cysylltu â staff perthnasol eraill yn ôl faint y mae angen iddynt ei wybod.
- Cysylltu â'r teuluoedd a/neu asiantaethau eraill fel y bo'n briodol i ganfod anghenion y plentyn.

- **Rhoi'r holl wybodaeth i'r pennaeth.**
- **Monitro cynnydd academaidd y plentyn a threfnu cymorth ychwanegol os oes ei angen.**
- **Gweithredu fel eiriolwr dros y plentyn.**
- **Sicrhau bod plant sy'n newydd i'r ysgol yn cael cyfnod ymsefydlu esmwyth a chroesawgar.**
- **Sicrhau y gall y plentyn siarad ag aelod o'r staff.**
- **Mynychu unrhyw hyfforddiant perthnasol.**
- **Gweithredu fel cynghorwr i aelodau staff eraill a llywodraethwyr am faterion sy'n berthnasol i addysg y plentyn.**
- **Cadw cofnodion priodol a chyfredol.**

- Datblygu cynllun dysgu unigol â'r plentyn a'r rhiant/gofalwr sydd ddim yn y carchar sy'n nodi unrhyw gymorth sydd ei angen ar y plentyn (Cymdeithas Ryngwladol Barnwyr ac Ynadon Ieuenctid a Theulu, 2006).
- Cydnabod ei bod yn bwysig, yn y rhan fwyaf o achosion, i blant gynnal perthynas â rhieni sydd yn y carchar. Gan ystyried hyn, gweithio gyda phlant a rhieni i alluogi plant i gael caniatâd i fod yn absennol i ymweld â'u rhiant / aelod teulu sydd yn y carchar (Cenhedloedd Unedig, 2011; Cymdeithas Ryngwladol Barnwyr ac Ynadon Ieuenctid a Theulu, 2006). Deall bod angen i'r rhan fwyaf o ymweliadau â charchardai ddigwydd yn ystod oriau ysgol a bod carcharorion yn aml iawn yn cael eu cadw'n bell oddi wrth eu teuluoedd. Dylid cofnodi hyn fel absenoldeb gyda chaniatâd ar gofrestri ysgol. Defnyddio cod 'C' ar gyfer amgylchiadau eraill â chaniatâd fyddai fwyaf priodol yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar Godau Presenoldeb yn yr Ysgol (2010).
- Bod yn gyfarwydd â gwasanaethau lleol sy'n gweithio gyda phlant yn y sefyllfa hon a chysylltu â'r gwasanaethau hyn fel y gellir cyfeirio teuluoedd at gymorth priodol (Morgan et al, yn y wasg [a]).
- Ceisio adborth gan blant a rhieni yn y sefyllfa hon am sut y gellir cryfhau cymorth mewn ysgolion, sut y gellir llunio polisïau ysgol a sut y gall ysgolion roi gwell cymorth i rieni a phlant i roi gwybod i ysgolion am eu sefyllfa. Cynnwys y plant eu hunain yn y broses o ganfod beth fyddai fwyaf o gymorth. Mae hyn yn agwedd bwysig ar arfer da, oherwydd ceir perygl bod datblygu polisïau'n creu trefn o'r brig i lawr sydd ddim yn caniatáu cyfraniad gan blant na grymuso plant. Yn aml, bydd gan blant yn y sefyllfa hon syniadau clir am beth sy'n briodol, fel y mae'r dyfyniadau canlynol yn ei ddangos:

**'Gofyn ydyn nhw'n iawn, gofyn os oes angen help arnyn nhw a bod yn gefnogol.'**

*(Plentyn naw mlwydd oed; Morgan et al, yn y wasg [a]) )*

**'Ei wneud yn breifat, ddim o flaen pawb. Dydw i ddim eisiau i bawb wybod.'**

*(Plentyn deuddeg mlwydd oed; Morgan et al, yn y wasg [a])*

- Datblygu llyfrgell o adnoddau am y pwnc, megis llyfrau, taflenni a disgiau DVD, i staff, teuluoedd a phlant (Ramsden, 1998). Mae gan Gweithredu dros Deuluoedd Carcharorion lawer o adnoddau defnyddiol. Arddangos deunyddiau fel eu bod nhw yn y golwg ac ddim wedi'u cuddio (Morgan et al, yn y wasg [b]).



- Datblygu'r system cymorth bugeiliol, cynghori yn yr ysgol, ymyriadau cymorth a chynlluniau mentora mewn ysgolion i roi cymorth i blant yn y sefyllfa hon (SCIE, 2008; Morgan et al, yn y wasg [b]). Mae'r elusen SHINE for Kids yn New South Wales, Awstralia, yn cynnig enghraifft dda o sut i ddarparu grŵp cymorth (Roberts, 2012; www.shineforkids.org.au).
- Anfon adroddiadau ysgol a diweddariadau eraill o'r ysgol at y rhiant sydd yn y carchar, pan fo'n briodol, er mwyn iddo/iddi gael gwybod am addysg y plentyn (SCIE, 2008). Fodd bynnag, dylid cofio trafod hyn ymlaen llaw â'r rhiant/gofalwr sydd ar ôl a'r plentyn (Morgan et al, yn y wasg [b]).
- Datblygu ethos o weithio mewn partneriaeth â rhieni a diwylliant o ymddiriedaeth a chefnogaeth yn yr ysgol, fel bod rhieni'n teimlo y gallant roi gwybod i'r ysgol am garcharu rhiant neu berthynas agos (Morgan et al, yn y wasg [a]). Gallai'r cyfathrebu da hwn gynnwys y strategaethau canlynol:
  - Rhoi gwybod i rieni bod yr ysgol yn rhoi cymorth i deuluoedd sy'n teimlo effaith carcharu.
  - Rhoi taflenni a phosteri yn y gymuned.
  - Cynnwys gwybodaeth mewn cylchlythyrau ysgol.
  - Creu cysylltiadau â grwpiau cymunedol.
  - Gwahodd rhieni o deuluoedd sy'n teimlo effaith carcharu i helpu'r ysgol i ganfod ymatebion priodol.



Mae'r astudiaethau achos canlynol yn dangos sut gall ysgolion ymateb yn llwyddiannus i anghenion plentyn unigol. Mae'r astudiaethau achos hyn yn benodol yn dangos ymagwedd ysgol gyfan, lle daw gwahanol elfennau at ei gilydd i roi cymorth i'r plentyn.

**Roedd disgybl blwyddyn chwech yn bryderus iawn am ei thaid a oedd ar fin cael dedfryd. Roedd hi'n pryderu y byddai'n marw yn y carchar. Dywedodd wrth lawer o aelodau staff am ei phryderon. Cysylltodd yr ysgol â'r rhieni i wneud yn siŵr bod yr ysgol yn cael gwybod am ddyddiad yr achos llys.**

**Roedd y ferch yn anhapus iawn ac yn wylo'n gyson. Roedd hi eisiau bod yn yr ysgol, ond nid gyda'r disgyblion eraill. Wrth i'r achos llys agosáu, gadawodd yr ysgol iddi ddod i'r ysgol ond aros ar ei phen ei hun am y rhan fwyaf o'r amser.**

(Nodiadau achos wedi'u paratoi ar ôl sgwrs gyda'r pennaeth)

**'Cafodd yr ysgol wybod ar unwaith bod tad [fy mab] yn y ddalfa gan asiantaeth allanol. Efallai na fyddwn i wedi dweud wrthyn nhw o gwbl, neu ddim mor gyflym beth bynnag, ond roeddwn i'n falch yn y pen draw, oherwydd roedden nhw'n gefnogol.**

**'Gofynnodd y pennaeth am gyfarfod yn syth ar ôl iddo gael yr ymweliad gan yr heddlu. Ni wnaeth roi pwysau arnaf i roi gwybodaeth ond dywedodd yr hoffai roi cymorth. Roeddwn yn onest efo fo am ein sefyllfa.**

**'Mi wnaeth i mi deimlo'n llai unig, oherwydd dywedodd wrthyf fod eraill yn yr ysgol wedi bod mewn sefyllfa debyg. Gofynnodd i mi oeddwn i eisiau i athrawes [fy mab] gael gwybod: roeddwn i'n teimlo bod gen i reolaeth.**

**'Yn nes ymlaen, pan ddaeth hi'n amlwg bod [fy mab] yn flin ac wedi encilio'n emosiynol, a bod ei ganlyniadau academaidd wedi dechrau dioddef, cefais gyfarfod gyda [y pennaeth] a gofynnodd i mi beth roeddwn yn meddwl y gallai'r ysgol ei wneud i helpu [fy mab] a gwneud awgrymiadau.**

**Dyma rai o'r pethau a wnaeth yr ysgol:**

- **Ei symud allan o wersi i helpu mewn clwb garddio gyda phlant iau (ar ôl gwneud yn siŵr ei fod yn gyfrifol gyda phlant iau).**
- **Prynu bag dyrnu a menig iddo i roi lle iddo gael gwared ar rywfaint o'i ddicter: roedd yn gallu defnyddio system cerdyn i roi gwybod i athro neu athrawes os nad oedd yn ymdopi'n emosiynol.**
- **Trefnu ei fod o, a fi, yn cael sgwrs efo nyrs yr ysgol.**
- **Darparu athro i fod yn fentor iddo er mwyn iddo gael dyn fel delfryd ymddwyn yn ei fywyd.'**

(Datganiad ysgrifenedig gan fam bachgen chwe mlwydd oed)

## Lefel staff ysgol

Mae angen i staff ysgol sylweddoli y gall fod yn anodd iawn i blant siarad am fod ag aelod teulu yn y carchar. Efallai y bydd y plentyn yn teimlo bod y wybodaeth hon yn breifat ac na ddylid ei rhannu.

Gan fod pob sefyllfa'n unigryw, mae'n bwysig bod yn agored i ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a chydnabod na fydd unrhyw un ymateb yn addas i bob amgylchiadau. Fodd bynnag, mae'r canlynol wedi'u nodi fel egwyddorion arweiniol defnyddiol:

- Dylech weld y plentyn fel unigolyn ag anghenion unigol. Cofiwch fod carcharu'n gallu effeithio ar blant a phobl ifanc mewn gwahanol ffyrdd (Ramsden, 1998).
- Peidiwch â barnu, ac ystyriwch eich agweddau eich hun. Cofiwch nad yw'r plentyn wedi gwneud dim byd o'i le a bod rhiant neu berthynas agos y plentyn yn dal i fod yn aelod o'r teulu (Evans, 2009; Morgan et al, yn y wasg [b]; Ramsden, 1998). Mae hefyd yn bwysig bod gweithwyr proffesiynol yn ystyried eu meddyliau, eu teimladau a'u disgwyliadau eu hunain o deuluoedd carcharorion i sicrhau nad ydym yn creu stigma i'r boblogaeth hon drwy ostwng disgwyliadau ohonynt. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod merched â mam yn y carchar yn arbennig o agored i niwed gan stigmateiddio gan athrawon drwy ostwng disgwyliadau (Dallaire, 2010).
- Peidiwch â thrin y plentyn fel dioddefwr na bod yn or-amddiffynnol (Ramsden, 1998). Dylech sylwi bod y plentyn yn aml yn gymwys iawn ac y gallai fod yn cynnig cymorth i rywun arall ac yn ceisio ymdopi â'r sefyllfa yn ei ffordd ei hun (Morgan et al, yn y wasg [b]).
- Ceisiwch ddeall, os mai trydydd parti a ddywedodd wrthych am sefyllfa'r plentyn, na fyddai ar y plentyn eisiau i chi wybod o reidrwydd ac efallai y byddai'n well gan y plentyn i chi beidio â sôn am y peth (Morgan et al, yn y wasg [b]). Mae gan y plentyn hawl i breifatrwydd ac mae'n bwysig peidio â rhoi'r plentyn mewn sefyllfa lle mae'n rhaid iddo/iddi ddweud wrth ffrindiau am y rhiant/perthynas os byddai'n well ganddo/ganddi beidio. Dim ond y bobl ag angen gwybod ddylai gael clywed am y peth a dylid trafod y mater â'r teulu a'r plentyn (Morgan et al, yn y wasg [b]; Ramsden, 1998).
- Byddwch yn sensitif i anghenion y plentyn a chynnig cymorth sensitif a phriodol. Dylech gydnabod barn a dewisiadau'r plentyn, gofyn sut mae, dangos diddordeb ynddo/ynddi a gwrando arno/arni. Cofiwch ei bod yn bosibl mai chi yw'r unig un sy'n gwrando ar y plentyn (Evans, 2009; Morgan et al, yn y wasg [b]; Ramsden, 1998).
- Byddwch yn ymwybodol y gall fod gan blant ag aelod teulu agos yn y carchar feddyliau poenus iawn am y carchar. Mae'n debygol y bydd eu syniad o'r carchar

yn seiliedig ar sut mae'n ymddangos y cyfryngau ac mewn ffilmiau. Efallai y bydd y plentyn am i athro/athrawes dawelu ei feddwl/ei meddwl am hyn, felly mae angen hyfforddiant priodol.

- Fel gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd sy'n teimlo effaith carcharu, mae'n bwysig parchu a chefnogi penderfyniadau unigol a wneir gan deuluoedd am beth i'w ddweud wrth eu plant. Fodd bynnag, mae gwaith ymchwil ac ymarfer proffesiynol yn y maes hwn yn awgrymu y dylid dweud y gwir wrth blant lle bo'n bosibl, gan ddefnyddio fformat sy'n addas i blant o'r oed dan sylw, felly efallai y gelwir ar athrawon i roi cyngor i rieni am sut i siarad â'r plentyn am garcharu. Gall hon fod yn sgwrs anodd i'w chael gyda phlentyn, felly cynlluniwch hi ymlaen llaw gan helpu'r rhiant i baratoi am unrhyw gwestiynau neu ymatebion emosiynol gan y plentyn. Bydd trafod hyn ymlaen llaw'n helpu'r rhiant ond bydd hefyd yn golygu bod yr ysgol a'r teulu'n gyson â'i gilydd wrth siarad â'r plentyn.
- Cofiwch y gall sefyllfa'r plentyn fod yn fwy cymhleth os yw'r berthynas rhwng y ddau riant wedi chwalu. Er enghraifft, efallai y caiff y plentyn ei ddal rhwng bod eisiau cysylltu â'r tad yn y carchar a pheidio â bod eisiau gofyn i'r fam yn y cartref ei helpu i ymweld. Gall fod yn arbennig o werthfawr i blant yn y sefyllfa hon drafod materion fel hyn ag athro/athrawes.
- Cofiwch fod y rhiant yn y carchar yn dal i fod yn rhiant i'r plentyn ac y gallai fod arno/arni eisiau gwybod am waith ysgol y plentyn. Mae ganddo/ganddi hawl statudol i gael copïau o adroddiadau ysgol a gwybodaeth arall a ddosberthir am eu plentyn. Efallai y bydd y plentyn hefyd yn dymuno dangos rhywfaint o'i waith ysgol i'r rhiant a dylid gwneud cymaint â phosibl i hwyluso hyn. Fodd bynnag, peidiwch â thybio bod hyn yn wir ym mhob achos (Morgan et al, yn y wasg [b]).
- Peidiwch â gofyn am y trosedd ei hun (Evans, 2009; Ramsden, 1998). Gall hyn achosi trallod neu ddryswch i'r plentyn, ac efallai na fydd yn gwybod popeth am y trosedd.
- Byddwch yn ymwybodol y gallai'r plentyn fod yn pryderu am bwy sy'n gwybod am y sefyllfa ac am beth y dylai ei ddweud wrth ei ffrindiau. Efallai y bydd yn gofyn am gyngor am hyn.
- Cofiwch fod arestio, treialu, carcharu a rhyddhau aelod teulu'n gallu achosi straen ac ansicrwydd aruthrol i blant.
- Cofiwch y gall newidiadau i ymddygiad fod yn arwydd o newidiadau i fywyd y cartref, gan gynnwys rhyddhau perthynas agos neu riant o'r carchar. Mae ymchwil wedi dangos nad yw effeithiau carcharu ar blant o reidrwydd yn diweddu ar adeg rhyddhau'r rhiant (Morgan et al, yn y wasg [a]), a'i bod yn gyffredin i blentyn a fu'n ymdopi'n dda cyn hynny ddechrau dangos ymddygiad eithafol ar yr adeg hon.
- Byddwch yn sensitif i deimladau plentyn am ymweld â pherthynas agos neu riant yn y carchar. Dylech ddeall y gall newidiadau ymddygiad ddigwydd ar ôl ymweld.
- Lle bo'n briodol, gall staff gynnig cymorth i'r plentyn i gadw mewn cysylltiad â'r rhiant, er enghraifft, drwy ei helpu i ysgrifennu llythyrau a thynnu lluniau (Morgan et al, yn y wasg [b]).
- Gallwch fynychu hyfforddiant am y materion hyn i gael y wybodaeth ddiweddaraf.

## Enghraifft achos: Barnardo's Cymorth Cymunedol i Deuluoedd Troseddwyr (CCDT)

**Cafwyd atgyfeiriad gan gynghorwr ysgol a oedd yn pryderu am effaith carcharu tad ar les emosiynol ac ymddygiad Charlie. Ni chafodd ddim cysylltiad â'i blant yn ystod blwyddyn gyntaf y ddedfryd.**

**Ar ôl asesiad gyda mam Charlie, aeth y gweithiwr prosiect, ynghyd â staff prawf a staff y carchar, ati i archwilio'r rhesymau dros yr oedi cyn trefnu ymweliadau, gan gefnogi mam Charlie i wneud cynlluniau priodol i'r plant gael cysylltiad â'u tad.**

Wedi i hyn gael ei gymeradwyo, cyfarfu'r gweithiwr prosiect â Charlie, ei chwiorydd a'i fam i archwilio eu meddyliau, eu teimladau a'u pryderon ac i baratoi am eu hymweliad cyntaf â'r carchar. Hefyd, cadarnhaodd y gweithiwr prosiect â'r carchar y câi'r fam ddefnyddio'r ymweliad i rannu adroddiadau ysgol y plant. Ar ôl yr ymweliad, yn ystod sesiwn briffio, cafodd y teulu rannu'r profiad yn agored gyda'r gweithiwr prosiect i roi sylw i unrhyw faterion parhaus ac i wneud cynlluniau am gyswllt yn y dyfodol.

Yn ystod proses adolygu CCDT, rhannodd cynghorwr yr ysgol y newid positif a nodwyd yn ymddygiad Charlie a'i gyrhaeddiad yn yr ysgol, gan ddweud bod 'pwysau wedi'i godi' i Charlie a bod pryderon am ei les emosiynol wedi lleihau.

O ganlyniad i gysylltiad y gweithiwr prosiect â chynghorwr ysgol Charlie, gallodd CCDT gyfarfod â chynghorwyr ysgol ar draws yr awdurdod lleol i gynnig sesiynau di-dâl i godi ymwybyddiaeth o blant sy'n teimlo effaith carcharu rhiant.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â Cymorth Cymunedol i Deuluoedd Troseddwyr csof@barnardos.org.uk

- Dylai staff ysgol allu rhoi ar ddeall i'r plentyn nad yw ar ei ben/ei phen ei hun. Os oes adnoddau ar gael, dylid ystyried cysylltu plant sydd yn yr un sefyllfa. Byddai hyn yn rhoi cymorth uniongyrchol i'r plant ac yn eu helpu i weld bod plant eraill yn yr ysgol yn wynebu'r un heriau â hwy.

## Enghraifft achos: Yr ysgol fel prif ffynhonnell cymorth

**Nid oedd Cassandra, 16 oed, yn agos at ei mam. Roedd ei thad wedi cael dedfryd o garchar am ymosodiad rhywiol yn erbyn plentyn yn ei hysgol, ac roedd llawer o ymchwiliadau gwasanaethau cymdeithasol a chynadleddau achos amddiffyn plant wedi'u cynnal.**

Roedd ysgol Cassandra wedi bod yn gefnogol iawn:

**'Roedd yn dda, oherwydd unwaith yr wythnos roeddwn i'n cael cyfarfod gyda fy mhennaeth blwyddyn. Os byddai unrhyw beth yn digwydd, byddwn i'n gallu dweud wrth y pennaeth, ac roedd yn gofyn i mi oeddwn i'n iawn bob amser... Roeddwn i'n gallu ymddiried yn un athro. Roedd y ddau ohonyn nhw'n iawn oherwydd roeddwn i wedi eu hadnabod nhw ers pum mlynedd. Felly, roedd hi'n haws siarad gyda nhw na gyda fy mam, oherwydd doeddwn i byth yn siarad gyda fy mam.'**

Er bod y teulu'n cael ei erlid yn ddifrifol gan y gymuned leol, daliodd Cassandra i ganolbwyntio ar ei haddysg:

**'Roeddwn i jyst yn meddwl: pam ddylen nhw geisio gwastraffu fy addysg i?'**

(Daeth yr enghraifft hon o gyfweliadau a gynhaliwyd gan staff Prifysgol Huddersfield fel rhan o brosiect COPING 2012)

- Ystyriwch ddefnyddio 'amser cylch' neu 'flwch pryder' i atgoffa plant oed cynradd sut i siarad am unrhyw faterion sy'n eu poeni (O'Keefe, 2008; Ramsden, 1998).

## Enghraifft achos: Amser cylch a blwch atgofion Swydd Gaerloyw

**Mewn ysgol gynradd yn Swydd Gaerloyw yn ystod amser cylch yn yr ystafell ddosbarth, caiff plant eu hannog i siarad am bethau anodd yn eu bywydau. Os caiff pwnc carcharu ei godi, bydd yr**

**athro/athrawes yn rhoi sylw i'r mater. Bydd yn gofyn i'r plant eraill feddwl sut beth fyddai bod ag aelod teulu yn y carchar a beth fyddai'n helpu plentyn yn y sefyllfa hon.**

**Weithiau, bydd aelod staff yn defnyddio blwch atgofion, lle gall y plentyn roi llythyrau, ffotograffau ac eitemau pwysig eraill sy'n gysylltiedig â'r rhiant sydd yn y carchar neu sydd wedi symud i ffwrdd am resymau eraill. Mae gweithgaredd y blwch atgofion yn cael ei ddefnyddio fel amser i fyfyrio gyda'r plentyn am yr hyn sydd wedi digwydd, ac i ddatblygu ymddiriedaeth.**

(Nodiadau achos wedi'u paratoi ar ôl sgwrs gyda'r pennaeth)

Fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol y gall defnyddio amser cylch hefyd roi pwysau ar blentyn o ran yr hyn y mae'n teimlo yr hoffai ei rannu.

**'Rydw i'n gwybod bod tad fy ffrind yn y carchar. Mae hi'n siarad amdano fo wrth i ni ddal… y 'panda arbennig' rydyn ni'n ei alw ac rydych chi'n ei basio o gwmpas ac yn siarad am sut beth yw teimlo'n drist… Allwn i ddim dweud dim byd felly fe wnes i basio'r panda ymlaen.'**

*(Merch saith mlwydd oed â thad yn y carchar; Gill, 2009)*




CCTV
IN
OPERATION

# Adran pump:
# Casgliad

Mae plant sydd â rhiant yn y carchar yn un o'r grwpiau mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, ond mae eu problemau'n gudd ac ni chaiff eu lleisiau eu clywed. Maent yn fwy tebygol o fod â chyrhaeddiad addysgol isel, dioddef problemau iechyd meddwl a mynd yn droseddwyr eu hunain – mae'r gost am beidio â'u helpu yn rhy uchel. Ni ddylid cosbi plant am yr hyn y mae eu rhieni wedi'i wneud.

Mae angen gweithredu ar wahanol lefelau i ddiwallu anghenion plant sy'n teimlo effaith carcharu rhiant neu aelod arall o'r teulu. Mae angen integreiddio gwaith yr awdurdod lleol, yr ysgol a staff yr ysgol.

Rhaid i hyn fod yn seiliedig ar anghenion y plant a'r bobl ifanc dan sylw, a'r sefyllfa fregus y maent ynddi. Yn aml, caiff anawsterau emosiynol ac ymarferol eu sefyllfa eu gwaethygu gan y stigma sydd ynghlwm wrth fod ag aelod teulu yn y carchar.

Yr ymyriadau lleol mwyaf tebygol o gael effaith wirioneddol ar fywydau presennol plant a phobl ifanc yn y sefyllfa hon, a'u canlyniadau yn y dyfodol, yw'r rhai sy'n cyfuno gwaith codi ymwybyddiaeth cyffredinol i roi sylw i stigmateiddio ynghyd â chymorth unigol.

Yn bwysicaf oll, mae angen bod yn gefnogol tuag at blant ag aelod teulu yn y carchar. Rydym am ddiweddu prif adran y llawlyfr hwn gyda geiriau rhiant i blentyn yn y sefyllfa hon, a oedd yn athrawes ei hun; dywedodd: 'Byddwch yn garedig wrth fy mhlentyn i'.



# Atodiad un:
# Rhestri gwirio arfer da

Mae'r llawlyfr hwn yn cynorthwyo ysgolion sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd sydd â pherthynas yn y carchar. Mae'r rhestri gwirio isod wedi'u cynllunio i gael eu defnyddio ar lefel awdurdodau lleol ac ysgolion i asesu pa mor dda y mae'r sefydliadau hyn yn diwallu anghenion teuluoedd sydd yn y sefyllfa hon.

## Rhestr wirio lefel awdurdod lleol

| Eitem | ✓/✗ | Sylwadau | Cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|
| Rydym yn cydnabod bod plant ag aelod teulu agos yn y carchar yn grŵp â blaenoriaeth | | | |
| Rydym yn cynnwys plant ag aelod teulu agos yn y carchar mewn Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc | | | |
| Rydym wedi enwi unigolyn allweddol dynodedig ar lefel awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y grŵp hwn o blant | | | |
| Rydym wedi datblygu perthynas â rhanddeiliaid allweddol | | | |
| Rydym wedi canfod ffyrdd o rannu gwybodaeth am y grŵp hwn o blant mewn ffordd gyfrinachol a pharchus | | | |
| Rydym wedi trefnu hyfforddiant i'r holl staff ar y mater hwn | | | |
| Rydym wedi datblygu gwybodaeth briodol a sensitif, taflenni ac adnoddau eraill i blant, teuluoedd a staff yr ysgol ynglŷn â'r pwnc | | | |
| Rydym wedi datblygu polisi clir ar lefel awdurdod lleol ar gyfer sut bydd ysgolion yn rhoi cymorth ac ymateb i blant ag aelod teulu agos yn y carchar | | | |

## Rhestr wirio lefel ysgol

| Eitem | ✓/✗ | Sylwadau | Cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|
| Rydym wedi sicrhau bod holl staff yr ysgol wedi cael hyfforddiant ym maes plant ag aelod teulu agos yn y carchar | | | |
| Rydym wedi codi ymwybyddiaeth o'r grŵp hwn o blant yn ein hysgol | | | |
| Mae gennym bolisi ysgol sy'n gysylltiedig â pholisi'r awdurdod lleol ar gyfer sut byddwn yn rhoi cymorth i blant ag aelod teulu agos yn y carchar | | | |
| Mae holl staff yr ysgol yn deall y polisi ac yn glynu ato | | | |
| Rydym wedi enwi unigolyn allweddol yn yr ysgol sy'n gyfrifol am y grŵp hwn o blant | | | |
| Rydym yn hybu datblygiad cynlluniau gofal unigol â'r rhiant sydd ar ôl/gofalwr a'r plentyn i amlinellu unrhyw gymorth sydd ei angen ar y plentyn | | | |
| Mae gennym ethos o weithio mewn partneriaeth â rhieni a diwylliant o ymddiriedaeth a chefnogaeth yn yr ysgol, fel bod rhieni'n teimlo y gallant roi gwybod i'r ysgol am garcharu aelod teulu agos | | | |
| Rydym yn gweithio gyda phlant a rhieni i alluogi plant i gael caniatâd i fod yn absennol i ymweld ag aelod teulu yn y carchar | | | |

## **Rhestr wirio lefel ysgol** parhad

| Eitem | ✓/✗ | Sylwadau | Cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|
| Rydym yn deall pa wasanaethau lleol sy'n gweithio gyda phlant ag aelod teulu agos yn y carchar | | | |
| Rydym yn cysylltu ag asiantaethau allanol fel y bo'n briodol | | | |
| Rydym yn gweithio gyda phlant a theuluoedd yn y sefyllfa hon i ganfod sut i gryfhau'r cymorth a roddir mewn ysgolion | | | |
| Mae gennym lyfrgell o adnoddau am y pwnc, megis llyfrau, taflenni a disgiau DVD, i staff, teuluoedd a phlant | | | |
| Lle bynnag y bo'n bosibl, rydym yn gweithio i roi gwybodaeth i'r rhiant sydd yn y carchar am addysg y plentyn, gan gynnwys anfon copïau o adroddiadau ysgol atynt | | | |
| Rydym wedi datblygu'r system cymorth bugeiliol, cynghori yn yr ysgol, grwpiau cymorth a chynlluniau mentora mewn ysgolion i roi cymorth i'r grŵp hwn o blant | | | |
| Rydym yn cydnabod bod stigmateiddio'n gallu golygu bod y grŵp hwn o blant yn arbennig o agored i niwed gan fwlio, ac mae gennym bolisïau gwrth-fwlio effeithiol ar waith | | | |

## Lefel staff ysgol

| Eitem | ✓/✗ | Sylwadau | Cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|
| Rwyf wedi cael hyfforddiant ym maes plant ag aelod teulu agos yn y carchar ac rwyf yn gofalu fy mod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y maes | | | |
| Rwyf yn gweld plant a phobl ifanc yn y sefyllfa hon fel unigolion ag anghenion unigol | | | |
| Rwyf yn cydnabod bod carcharu'n gallu effeithio ar blant a phobl ifanc mewn gwahanol ffyrdd | | | |
| Mae fy ysgol yn fy ngalluogi i fyfyrio ar fy agweddau tuag at blant ag aelod teulu agos yn y carchar | | | |
| Rwyf yn osgoi trin plant yn y sefyllfa hon fel dioddefwyr a bod yn or-amddiffynnol | | | |
| Rwyf yn adnabod cymhwysedd y plentyn neu berson ifanc | | | |
| Rwyf yn canfod a yw'r plentyn neu berson ifanc yn cynnig cymorth i rywun arall ac yn ceisio ymdopi â'r sefyllfa yn ei ffordd ei hun | | | |
| Rwyf yn cofio bod gan y plentyn neu berson ifanc hawl i breifatrwydd | | | |
| Rwyf yn sensitif i anghenion y plentyn neu berson ifanc ac yn cynnig cymorth sensitif a phriodol | | | |
| Rwyf yn cydnabod pwysigrwydd yr aelod teulu yn y carchar i'r plentyn neu berson ifanc | | | |

## **Lefel staff ysgol** parhad

| Eitem | ✓/✗ | Sylwadau | Cynllun gweithredu |
|---|---|---|---|
| Rwyf yn cydnabod dewisiadau'r plentyn neu berson ifanc | | | |
| Nid wyf yn gofyn am y trosedd | | | |
| Rwyf yn gofyn sut mae'r plentyn, yn dangos diddordeb ynddo/ynddi ac yn gwrando arno/arni | | | |
| Rwyf yn deall bod effaith arestio, treialu, carcharu a rhyddhau aelod teulu'n achosi straen | | | |
| Lle bo'n briodol, rwyf yn cynnig cymorth i'r plentyn neu berson ifanc i gadw mewn cysylltiad â'i riant/ei rhiant | | | |

Atodiad dau:

# Sefydliadau sy'n rhoi cymorth i deuluoedd carcharorion

## Gweithredu dros Deuluoedd Carcharorion

Gweithredu dros Deuluoedd Carcharorion yw'r corff ymbarél aelodaeth cenedlaethol sy'n gweithio i leihau'r niwed y mae carcharu'n ei achosi i deuluoedd. Mae aelodaeth yn ddi-dâl i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Mae Gweithredu dros Deuluoedd Carcharorion yn datblygu ac yn cynhyrchu adnoddau, yn dosbarthu canllawiau arfer da ac yn dylanwadu ar bolisïau lleol a chenedlaethol. Maent hefyd yn cynnal digwyddiadau, yn datblygu ac yn cyflenwi'r pecyn hyfforddi 'Dedfryd Gudd', ac yn rhoi cyngor a gwybodaeth i'w haelodau ynghyd â bwletin newyddion bob pythefnos. Mae Gweithredu dros Deuluoedd Carcharorion wedi cynhyrchu cyfres o lyfrau i blant a disgiau DVD i'w defnyddio gan deuluoedd a gweithwyr proffesiynol, yn ogystal â thaflen wybodaeth i ysgolion. Mae rheolwyr rhanbarthol yn gallu darparu sesiynau codi ymwybyddiaeth ledled y wlad. Gweler y wefan i gael rhestr lawn o'r gwasanaethau a'r manylion cyswllt.

Ffôn: 020 8812 3600
Gwe: www.prisonersfamilies.org.uk
E-bost: info@prisonersfamilies.org.uk
Cyfeiriad: 25 Corsham Street, Llundain N1 6DR

## Cymorth Cymunedol i Deuluoedd Troseddwyr

Mae Cymorth Cymunedol i Deuluoedd Troseddwyr yn rhoi cymorth i blant a theuluoedd sy'n byw yng Ngwent, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful neu Dde Powys lle mae rhiant/gofalwr yn ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol.

Mae'r prosiect yn cynnig cymorth uniongyrchol i deuluoedd ac mae'n gallu cyfeirio at asiantaethau perthnasol ar gyfer cyngor, cymorth gyda gwybodaeth am ymweliadau â charchar a chyfle i siarad yn gyfrinachol am bryderon am effaith troseddu yn y teulu.

Mae'r prosiect hefyd yn gallu cyfarfod ag asiantaethau i ddarparu hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o blant sydd â rhiant yn y carchar.

E-bost: csof@barnardos.org.uk

## Waliau Anweladwy Cymru Carchar a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc, Pen-y-bont ar Ogwr

Gweithio gyda throseddwyr a'u teuluoedd i wneud y canlynol:

- Lleihau Aildroseddu
- Lleihau Troseddu mewn Dwy Genhedlaeth
- Annog Cynhwysiant Cymunedol

Mae WAC yn cynnig rhaglen estynedig o gymorth wedi'i chynllunio i gynorthwyo troseddwyr a'u teuluoedd i drwsio, datblygu a chynnal perthynas iach yn y lleoliad carchar ac ar adeg rhyddhau i'r gymuned.

E-bost: mary.cooke@uk.g4s.com or Karen.rees@barnardos.org.uk
Ffôn: 01656 302878 or 01639 620771

## i-HOP

Mae i-HOP yn darparu gwasanaeth cyngor a gwybodaeth un stop i bob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd troseddwyr.

Mae i-HOP yn ganolfan wybodaeth ar y we sy'n dod â'r holl adnoddau diweddaraf at ei gilydd i gynorthwyo gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys: ymchwil, manylion gwasanaethau cymorth, enghreifftiau o ymarfer, fframweithiau polisi, digwyddiadau a rhaglenni hyfforddi. Hefyd, mae llinell gymorth ddi-dâl i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant troseddwyr.

Ffôn: 0808 802 2013
Gwe: www.i-hop.org.uk

## Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Mae gwefan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn rhoi gwybodaeth am yr holl garchardai yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys gwybodaeth i ymwelwyr.

Gwe: www.justice.gov.uk

## Llinell Gymorth Teuluoedd Troseddwyr

Mae'r Llinell Gymorth Teuluoedd Troseddwyr yn wasanaeth di-dâl sy'n rhoi gwybodaeth a chymorth i unrhyw un sy'n cynorthwyo troseddwr drwy gydol eu cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Mae'r llinell gymorth ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 09.00 a 20.00 (heblaw gwyliau banc), ac ar ddydd Sadwrn a dydd Sul rhwng 10.00 a 15.00. Darperir y llinell gymorth gan Grŵp Cymorth Partneriaid Carcharorion a'u Teuluoedd (POPS) ac fe'i comisiynir gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS). Mae gwasanaethau cyfieithu ar gael i bobl ag iaith gyntaf heblaw Saesneg.

Ffôn: 0808 808 2003
Gwe: www.offendersfamilieshelpline.org
E-bost: info@offendersfamilieshelpline.org
Cyfeiriad: 1079 Rochdale Road,
Manchester M9 8AJ

## Ymddiriedolaeth Plant a Theuluoedd Ormiston

Mae Ormiston yn gweithio yn nwyrain Lloegr ac yn cynnig cyngor a chymorth i deuluoedd. Mae'r ymddiriedolaeth hefyd yn cynnal canolfannau ymwelwyr a mannau chwarae i blant, yn cynnal ymweliadau plant ac yn cynnal cyrsiau magu plant i dadau yn y carchar. Maent hefyd yn darparu amrywiaeth o lenyddiaeth gyda'r nod o roi cymorth i deuluoedd carcharorion (gweler isod).

Ffôn: 01473 724517
Gwe: www.ormiston.org
E-bost: enquiries@ormiston.org
Cyfeiriad: 333 Felixstowe Road,
Ipswich IP3 9BU

## Rhieni'n Rhannu (Gogledd Iwerddon)

Mae Rhieni'n Rhannu'n gweithio yn y tri charchar yng Ngogledd Iwerddon, gan roi cymorth a gwybodaeth i rieni sydd yn y ddalfa. Maent yn cynnig amrywiaeth o raglenni sy'n rhoi sylw i'r materion y gall rhieni eu hwynebu ar wahanol adegau yn ystod eu dedfryd. Lle bo angen, maent hefyd yn cynnig cymorth unigol i rieni os nad ydynt yn barod i gymryd rhan mewn sesiynau grŵp. Nod cyffredinol eu rhaglenni yw gwella'r berthynas rhwng rhieni a'u plant, cynyddu gwybodaeth a hyder rhieni, a helpu rhieni i ddeall effaith eu hymddygiad a'u dewisiadau ar eu plentyn.

E-bost: deirdre.sloan@barnardos.org.uk

## Grŵp Cymorth Partneriaid Carcharorion a'u Teuluoedd (POPS)

Mae POPS wedi'u lleoli ym Manceinion ac maent yn rhoi gwybodaeth a chymorth i deuluoedd troseddwyr o'u cysylltiad cyntaf â'r system cyfiawnder troseddol hyd at adeg rhyddhau'r troseddwr a thu hwnt. Sefydlwyd POPS gan aelodau teulu troseddwyr yn 1988 ac maent wedi cadw ymagwedd 'wedi'i harwain gan ddefnyddwyr' tuag at ddarparu a datblygu gwasanaethau byth ers hynny. Mae POPS yn darparu amrywiaeth o wasanaethau'n lleol ac yn genedlaethol, yn seiliedig ar eu cysyniad 'continwwm gofal': darparu gwasanaethau drwy'r system cyfiawnder troseddol i gyd sy'n cynorthwyo teuluoedd i ganfod eu hanghenion eu hunain a'u diwallu. Mae gan POPS weithwyr cymorth i deuluoedd yn gysylltiedig ag amrywiaeth o garchardai a mentrau prawf, ac maent hefyd yn cynnal nifer o ganolfannau ymwelwyr carchardai ar draws gogledd-orllewin Lloegr. Ar hyn o bryd, mae POPS wedi'u contractio i gyflenwi'r Llinell Gymorth Teuluoedd Troseddwyr.

Ffôn: 0161 702 1000
Gwe: www.partnersofprisoners.co.uk
E-bost: mail@partnersofprisoners.co.uk
Cyfeiriad: POPS, 1079 Rochdale Road,
Blackley, Manchester M9 8AJ

## Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai (Pact) Cymru

Mae Pact yn elusen genedlaethol sy'n rhoi cymorth i bobl sy'n teimlo effaith carcharu. Maent yn rhoi cymorth ymarferol ac emosiynol i blant a theuluoedd carcharorion, ac i garcharorion eu hunain. Ar hyn o bryd, mae gan Pact Cymru wasanaethau yng ngharchardai Abertawe a Chaerdydd, a chysylltiadau gwaith cryf â sefydliadau cymunedol. Yn ogystal â chynnal gwasanaethau mewn carchardai i roi cymorth i deuluoedd, prosiectau cymunedol a gwasanaethau arlwyo, mae Pact hefyd yn arwain y gwaith o ddatblygu rhwydwaith o ymarferwyr yng Nghymru sy'n ymwneud â theuluoedd a all fod yn ymdrin â charcharu.

Ffôn: 01792 485392
Gwe: www.prisonadvice.org.uk
E-bost: joanne.mulcahy@prisonadvice.org.uk

## Prison Chat UK

Cymuned ar-lein yw Prison Chat UK sy'n rhoi cymorth i deuluoedd a ffrindiau carcharorion. Mae eu gwefan yn rhoi gwybodaeth ac mae'n lle i gysylltu ag eraill mewn sefyllfa debyg a rhannu cyngor, profiadau a chymorth.

Gwe: www.prisonchatuk.com

## Gwasanaeth Cyngor a Gwybodaeth yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai

Mae Gwasanaeth Cyngor a Gwybodaeth yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai'n darparu gwybodaeth am reolau a gweithdrefnau carchardai, hawliau carcharorion a sut i gael cymorth yn y carchar. Mae ganddynt hefyd linell rhadffôn i garcharorion.

Ffôn: 0808 808 2003 (llinell gymorth teuluoedd carcharorion); 020 7251 5070
Gwe: www.prisonreformtrust.org.uk/forprisonersfamilies
E-bost: adviceandinformation@prisonreformtrust.org.uk
Cyfeiriad: 15 Northburgh Street, London EC1V 0JR

## Gwasanaeth Teuluoedd a Ffrindiau Carcharorion

Mae'r Gwasanaeth Teuluoedd a Ffrindiau Carcharorion yn darparu cymorth ymarferol a gwasanaeth gwneud ffrindiau dros y ffôn i deuluoedd carcharorion ledled y DU drwy gyfrwng llinell gymorth rhadffôn, ac wyneb yn wyneb yn Llundain drwy gyfrwng eu gwasanaeth gwneud ffrindiau, eu gwasanaeth llys a'u canolfan deuluoedd. Mae dalenni ffeithiau am amrywiaeth o faterion cysylltiedig, gweithdrefnau carchardai ac adnoddau ar gael ar eu gwefan.

Ffôn: 0808 808 3444
Gwe: www.pffs.org.uk
E-bost: info@pffs.org.uk
Cyfeiriad: 20 Trinity Street, London SE1 1DB

## Storybook Dads

Mae Storybook Dads yn rhoi cyfle i rieni yn y carchar i recordio stori i'w rhoi i'w plant ar CD. Maent yn gweithio mewn dros 100 o garchardai yn y DU.

Ffôn: 01822 322287
Gwe: www.storybookdads.org.uk
E-bost: info@storybookdads.org.uk
Cyfeiriad: Storybook Dads, HMP Dartmoor, Princetown, Yelverton, Devon PL20 6RR

## Women in Prison

Mae Women in Prison yn cynnig gwasanaeth cyfannol sy'n rhoi cymorth, cyngor a gwybodaeth i fenywod sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda hwy. Maent yn cynnig cymorth gyda materion ymarferol ac emosiynol yn gysylltiedig ag ailsefydlu

gan gynnwys cyngor am dai, budd-daliadau, trais domestig, iechyd meddwl, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Maent hefyd yn cynnig cymorth magu plant: yn benodol, cynorthwyo menywod a phlant i ymdrin ag effaith cael eu gwahanu oherwydd carcharu. Maent hefyd yn cynorthwyo menywod mewn achosion gofal i gadw mewn cysylltiad â'u plant ac yn y llys.

| | |
|---|---|
| Ffôn: | 020 7359 6674 (ar gyfer atgyfeiriadau);<br>0800 953 0125 (llinell gymorth i fenywod) |
| Gwe: | www.womeninprison.org.uk |
| E-bost: | admin@womeninprison.org.uk |
| Cyfeiriad: | Women in Prison,<br>Freepost RSLB-UABE-TYRT, Unit 10,<br>The Ivories, 6 Northampton Street,<br>London N1 2HY |

## Changing Lives

Mae Changing Lives yn elusen gofrestredig genedlaethol sy'n darparu amrywiaeth eang o wasanaethau cymorth arbenigol ledled y DU i helpu menywod a merched i gyflawni mwy. Yng Nghymru, mae'r Gwasanaeth Trobwynt Merched yn darparu cymorth un-i-un ac mewn grŵp, yn ogystal ag amrywiaeth o weithgareddau cyfannol i droseddwyr sy'n fenywod yng Nghymru. I gael gwybod mwy a sut i atgyfeirio, cysylltwch â:

| | |
|---|---|
| Ffôn: | 02920 224 924 |
| E-bost: | kathryn.hobbs@<br>changing-lives.org.uk |
| Cyfeiriad: | Changing Lives, 5 Williams Court,<br>Trade Street, Cardiff CF10 5DQ |

Atodiad tri:

# Deunydd sy'n addas i'w ddefnyddio mewn ysgolion fel deunydd hyfforddi

## Gweithredu dros Deuluoedd Carcharorion

Mae Gweithredu dros Deuluoedd Carcharorion wedi cynhyrchu sawl DVD gan gynnwys *Homeward bound* (2006), lle mae grŵp theatr yn rhoi perfformiad pwerus sy'n cyfleu'r tensiynau mewn teulu ychydig cyn rhyddhau'r tad o'r carchar. Mae ganddynt hefyd restr o adnoddau defnyddiol i weithwyr proffesiynol gan gynnwys y gyfres *Outsiders* i deuluoedd.

Gweler y manylion cyswllt yn atodiad dau.

## Y Sefydliad Rhagoriaeth Gofal Cymdeithasol

- *Plant carcharorion: Cynnal cysylltiadau teuluol Canllaw 22 (2008)*
- E-ddysgu:
  - *Plant carcharorion: Cyflwyniad*
  - *Y llwybr o arestio i ryddhau*
  - *Dulliau ymarfer gyda phlant carcharorion*

Gwe: www.scie.org.uk

## Partneriaeth Thames Valley

Mae Partneriaeth Thames Valley wedi datblygu adnoddau i gynorthwyo athrawon, mentoriaid dysgu a gweithwyr cymorth ymddygiad i weithio gyda phlant unigol, ac mae'r rhain ar gael ar CD am £5. Maent hefyd wedi cynhyrchu pecyn adnoddau i weithwyr addysg proffesiynol.

Gwe: www.thamesvalleypartnership.org.uk

# Atodiad pedwar:
# Deunydd sy'n addas i'w ddefnyddio'n uniongyrchol gyda phlant

## Gweithredu dros Deuluoedd Carcharorion

Mae Gweithredu dros Deuluoedd Carcharorion wedi cynhyrchu llawer o lyfrau sy'n addas i blant:

- *Danny's mum and Tommy's dad,* i blant hyd at chwe mlwydd oed
- *Finding dad,* i blant wyth mlwydd oed a hŷn
- *Who's guilty?,* i bobl ifanc

Gweler y manylion cyswllt yn atodiad dau.

## Ymddiriedolaeth Plant a Theuluoedd Ormiston

Mae Ormiston wedi cynhyrchu *Visiting my dad* a *Visiting my mum*, adnoddau i'w llwytho i lawr i helpu plant i siarad am eu hymweliad â rhiant yn y carchar.

Gweler y manylion cyswllt yn atodiad dau.

## Rhieni'n Rhannu

Mae Rhieni'n Rhannu wedi datblygu nifer o adnoddau i garcharorion a'u teuluoedd, gan gynnwys *It's a tough time for everyone*, llyfryn a DVD sy'n helpu plant i ddod i dderbyn bod eu rhiant yn y carchar, a *Family ties: Information for when a mum is in prison*.

Ffôn: 02890 491081
E-bost: niparenting.matters@barnardos.org.uk

## Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai (Pact)

Mae Pact wedi cynhyrchu llyfryn, *My visit*, sy'n egluro'r profiad ymweld i blant gan ddefnyddio darluniau a geiriau hawdd eu deall, gyda lle i blant wneud lluniau gyda'u mam neu eu tad.

Gweler y manylion cyswllt yn atodiad dau.

# Atodiad pump:
# Sefydliadau sy'n gallu darparu sesiynau hyfforddiant i staff ysgol

Mae adnoddau hyfforddi yn y maes gwaith hwn yn tueddu i fod yn rhai rhanbarthol.

Yn genedlaethol, mae **Gweithredu dros Deuluoedd Carcharorion** yn cynnal diwrnodau hyfforddi ledled y wlad yn ogystal â chyrsiau hyfforddi hyfforddwyr i bobl a hoffai gyflwyno eu hyfforddiant 'Dedfryd Gudd'. Mae eu pum rheolwr rhanbarthol hefyd yn cadw'r wybodaeth ddiweddaraf am sefydliadau lleol a allai ddarparu hyfforddiant i ysgolion.

I gael manylion cyswllt, ewch i www.prisonersfamilies.org.uk.

# Cyfeiriadau

Gweithredu dros Deuluoedd Carcharorion a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (2011) *Supporting prisoners' families: What can schools do?*

Prosiect COPING (2012) *Coping with a parent in prison: An agenda for policy reform.* Prifysgol Huddersfield, Gorllewin Swydd Efrog.

Corston, J (2007) *A review of women with particular vulnerabilities in the criminal justice system*. Y Swyddfa Gartref, Llundain.

Dallaire, D (2007) *Children with incarcerated mothers: Developmental outcomes, special challenges and recommendations. Journal of Applied Developmental Psychology,* Rhifyn 28, tt 15–24.

Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (DCSF) a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (2007) *Children of offenders review.* DCSF/Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Llundain.

Evans, S (2009) *Guidelines for working with children who have a family member in prison.* Cyngor Swydd Rhydychen, Rhydychen.

Gallager, B (2012) *WP1 survey of needs of children of prisoners.* www.coping-project.eu, cyrchwyd Chwefror 2013.

Gelsthorpe, L; Sharpe, G; Roberts, J (2007) *Provision for women offenders in the community.* Cymdeithas Fawcett, Llundain.

Gill, O (2009) *Every night you cry: Case studies of 15 Bristol families with a father in prison.* Barnardo's De Orllewin Lloegr, Bryste.

Gill, O (2010) *She just cries and cries: Case studies of Devon families with a father in prison.* Barnardo's De Orllewin Lloegr, Bryste.

Cymdeithas Ryngwladol Barnwyr ac Ynadon Ieuenctid a Theulu (2006) *Datganiad Belfast.* Cyngres y Byd XVII yn Belfast, Gogledd Iwerddon.

Martynowicz, A (2011) *Children of imprisoned parents.* Yn Scharff-Smith, P a Gampell (Gol). *Children of imprisoned parents.* Sefydliad Hawliau Dynol Denmarc, Copenhagen. www.familiesoutside.org.uk/content/uploads/2011/05/children_260411_ page.pdf, cyrchwyd Chwefror 2013.

Meek, R (2006) *When big brother goes inside: The experience of younger siblings of young men in prison.* Howard League for Penal Reform, Llundain.

McEvoy, K; O'Mahoney, D; Horner, C et al (1999) *The home front: Families of politically motivated prisoners in Northern Ireland.* British Journal of Criminology, Rhifyn 39, tt 175–197.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2011) *Incentives and earned privilege.* PSI 11/2011. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Llundain.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2009) *Families do matter.* Pathfinder Plant a Theuluoedd Gorllewin Canolbarth Lloegr. www.familiesdomatter.co.uk/assets/userimages/fdm_project_report_09.pdf, cyrchwyd Chwefror 2013.

Morgan, J; Leeson, C; Carter Dillon, R et al (yn y wasg [a]) *A hidden group of children: Support provision in schools for children who experience parental imprisonment. Children & Society.*

Morgan, J; Leeson, C; Carter Dillon, R (yn y wasg [b]) *How can schools support children with a parent in prison? Pastoral Care in Education.*

Murray, J; Farrington, D.P (2005) *Parental imprisonment: Effects on boys' antisocial behaviour and delinquency through the life course. Journal of Child Psychology and Psychiatry,* Rhifyn 46, tt 1269–1278.

O'Keeffe, H (2008) *SENCO update September 2008.* www.teachingexpertise.com/articles/supporting-children-prisoners-within-school-4165, cyrchwyd Chwefror 2013..

Poehlmann, J (2005) *Representations of attachment relationships in children of incarcerated mothers. Child Development,* Rhifyn 76, tt 679–696.

Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai (2000) *Justice for women: the need for reform.* Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, Llundain.

Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai (2012a) *Briffiadau Bromley.* Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, Llundain. http://www.prisonreformtrust.org.uk/Portals/0/ Documents/FactfileNov2012small.pdf, cyrchwyd Chwefror 2013.

Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai (2012b) *Women in prison.* Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, Llundain.

Ramsden, S (1998) *Working with children of prisoners.* Achub y Plant, Llundain.

Roberts, R (2012) *The role of schools in supporting families affected by imprisonment.* Families Outside, Caeredin.

Robertson, O (2011) *Collateral convicts: Children of incarcerated parents. Recommendations and good practice from the UN Committee on the Rights of the Child Day of General Discussion 2011*. Swyddfa Cenhedloedd Unedig y Crynwyr, Genefa.

Robertson, O (2007) *The impact of parental imprisonment on children.* Swyddfa Cenhedloedd Unedig y Crynwyr, Genefa.

Scharff-Smith, P a Gampell (Gol) (2011) *Children of imprisoned parents.* Sefydliad Hawliau Dynol Denmarc, Copenhagen.

Sefydliad Rhagoriaeth Gofal Cymdeithasol (SCIE) (2008) *Canllaw adnoddau plant a theuluoedd rhif 22: Children of prisoners – maintaining family ties.* SCIE, Llundain.

Y Cenhedloedd Unedig (2011) Adroddiad ac argymhellion diwrnod o drafodaeth gyffredinol am blant â rhieni yn y carchar. Y Cenhedloedd Unedig, Genefa.

Williams, K; Papadopoulou, V; Booth, N (2012) *Prisoners' childhood and family backgrounds: Results from the Surveying Prisoner Crime Reduction (SPCR) longitudinal cohort study of prisoners.* Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Llundain. www.justice.gov.uk/downloads/publications/research-and-analysis/moj-research/prisoners-childhood-family-backgrounds.pdf, cyrchwyd Chwefror 2013.

Wright, S; Khan, S (2010) *The support needs of offenders and their families.* Partneriaeth Thames Valley ac Asiantaeth Revolving Doors.



**Plant sy'n teimlo effaith carcharu aelod o'r teulu**

***Llawlyfr i ysgolion i ddatblygu arfer da***

(h) Barnardo's, 2013
Cedwir pob hawl

Ni cheir atgynhyrchu unrhyw ran o'r adroddiad hwn, gan gynnwys y delweddau, na'i storio ar system adalw awtomatig, na'i drosglwyddo ar unrhyw ffurf nac mewn unrhyw fodd, heb ganiatâd y cyhoeddwr ymlaen llaw.

Modelau sy'n ymddangos yn yr holl ddelweddau.

Cafodd yr adroddiad ei lunio gan Julia Morgan PhD ac Owen Gill PhD a'i addasu ar gyfer Cymru gan Zoe Lancelott ac Emma Reed

ISBN 978-1-907645-04-4

Credwch mewn plant
Barnardo's
Cymru

www.barnardos.org.uk

Head Office, Tanners Lane,
Barkingside, Ilford,
Essex IG6 1QG
Tel: 020 8550 8822

Rhifau Cofrestru Elusen Barnardo's:
216250 a SC037605 15716dos13